Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)

## Adroddiad Cyfnod 1 ar yr egwyddorion cyffredinol

Rhagfyr 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru**
X: **@SeneddCydraddoldeb**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)

## Adroddiad Cyfnod 1 ar yr egwyddorion cyffredinol

Rhagfyr 2025

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb**

---

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru



**Mick Antoniw AS**
Llafur Cymru



**Jane Dodds AS**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Altaf Hussain AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Julie Morgan AS**
Llafur Cymru



**Sioned Williams AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ..... **5**

**Argymhellion a chasgliadau** ..... **6**

**1. Cyflwyniad** ..... **9**

Dull gweithredu'r Pwyllgor ..... 10

Y derminoleg a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn ..... 12

**2. Egwyddorion cyffredinol** ..... **13**

Yr angen am ddeddfwriaeth ..... 13

Cydnabyddiaeth o IAP fel iaith a diwylliant ..... 15

Deddfwriaeth fframwaith ..... 16

Diffiniad o IAP ..... 17

Barn y Pwyllgor ..... 18

**3. Dyletswydd i hybu, a strategaeth a chanllawiau IAP** ..... **21**

Y ddyletswydd i hybu a hwyluso IAP ..... 21

Strategaeth IAP genedlaethol ..... 22

Adolygu'r strategaeth ..... 23

Canllawiau IAP ..... 24

Barn y Pwyllgor ..... 26

**4. Cynlluniau IAP a chyrff cyhoeddus rhestredig** ..... **29**

Cynlluniau IAP ..... 29

Adrodd ar weithredu cynlluniau IAP ..... 30

Ychwanegu at nifer y cyrff cyhoeddus rhestredig ..... 31

Barn y Pwyllgor ..... 33

**5. Cynghorydd IAP a Phanel Cynorthwyo** ..... **36**

Penodi cynghorydd IAP ..... 36

Rôl y Cynghorydd IAP ... 38

Panel Cynorthwyo ... 39

Barn y Pwyllgor ... 40

**6. Monitro, atebolrwydd a gorfodi ... 43**

Gofynion monitro ac adrodd ... 43

Atebolrwydd ... 44

Cwynion a gorfodi ... 46

Perthynas â'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ... 47

Barn y Pwyllgor ... 48

**7. Ymgysylltu a chydgynhyrchu ... 50**

Ymgynghori a chydgynhyrchu ... 50

Barn y Pwyllgor ... 52

**8. Rhwystrau posibl a gweithredu'r Bil ... 54**

Argaeledd dehonglwyr a chyfieithwyr ... 54

Cyllid a chostau ... 57

Materion yn y maes addysg ... 58

Technoleg a systemau ... 59

Barn y Pwyllgor ... 60

**Atodiad 1 : Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth ... 63**

**Atodiad 2 : Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ... 66**

**Atodiad 3 : Gwybodaeth ychwanegol a chanfyddiadau'r gwaith ymgysylltu ... 68**

Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu ... 69

# Rhagair y Cadeirydd

Mae gan y rhan fwyaf o wleidyddion syniadau ynghylch sut i ddefnyddio deddfwriaeth i wneud newidiadau. Prin yw'r rhai sy'n cael y cyfle hwnnw, felly mae gwneud i hynny gyfrif yn hollbwysig. Gallai Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru), os caiff ei gyflawni'n drylwyr, arwain at newid gwirioneddol a pharhaol. Mae'n garreg filltir bwysig yn yr ymdrechion i gydnabod Iaith Arwyddion Prydain (IAP) fel iaith a diwylliant unigryw ynddi'i hun.

Mae gwaith craffu'r Pwyllgor ar y Bil wedi'i lywio gan leisiau'r rhai sy'n defnyddio IAP bob dydd. Clywsom dystiolaeth gymhellol gan arwyddwyr IAP byddar am y rhwystrau y maent yn eu hwynebu wrth gael mynediad at ystod o wasanaethau cyhoeddus. Mae eu profiadau'n tanlinellu pam mae'r ddeddfwriaeth hon yn bwysig. Mae'n bwysig nid yn unig fel rhywbeth symbolaidd, ond fel sylfaen ar gyfer mwy o dryloywder ac atebolrwydd a fydd yn gwella bywydau pobl.

Mae'r Bil yn gosod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus a Gweinidogion i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP. Er ein bod yn cefnogi'r ymrwymiadau hyn, er mwyn i'r Bil gyflawni ei ddiben, mae'n rhaid i'r ffordd y caiff ei weithredu fod yn gadarn a rhaid iddo gael ei ategu gan ganllawiau clir, adnoddau digonol, ac ymgysylltiad ystyriol ag arwyddwyr IAP byddar eu hunain.

Mae ein hadroddiad yn ystyried y newidiadau a awgrymwyd i'r Bil a rhwystrau i'w weithredu. Y bygythiad mwyaf o ran ei weithredu yw prinder dehonglwyr a chyfieithwyr yng Nghymru. Mae angen gweithredu ar fyrder ac yn barhaus i fynd i'r afael â hyn ac adeiladu sylfeini cadarnach ar gyfer y proffesiwn yn y dyfodol.

Hoffem ddiolch o galon i bawb a oedd yn rhan o'n gwaith, nid yn unig y rhai a roddodd dystiolaeth, ond hefyd y llu o unigolion a fu o gymorth inni dorri tir newydd o ran y ffordd y cynhaliwyd y broses graffu.



**Jenny Rathbone AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

# Argymhellion a chasgliadau

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell y dylai'r Senedd gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) yng Nghyfnod 1. ............... Tudalen 19

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil yn adolygu'r disgrifiad o IAP a ddefnyddir yn y Memorandwm Esboniadol i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan randdeiliaid ac yn ystyried rhinweddau cynnwys diffiniad clir o IAP ar wyneb y Bil ac a oes angen gwelliannau i gyflawni hyn. Dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil anelu at ymateb i'r argymhelliad hwn erbyn 7 Ionawr 2026 fel y gall yr Aelodau ystyried yr ymateb cyn trafodion Cyfnod 2, os bydd y Bil yn mynd yn ei flaen. ............................................................ Tudalen 20

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell y dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r canllawiau IAP o fewn yr un amserlenni neu amserlenni tebyg i'r rhai a bennir ar gyfer y strategaeth IAP genedlaethol. Rydym o'r farn, oni bai bod dadl gref o blaid amserlen wahanol, y dylai 18 mis ar ôl i'r Bil gael ei ddeddfu fod yn ddigonol ac yn briodol. ............................................................ Tudalen 28

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell y dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar gynnwys y canllawiau IAP cyn eu cyhoeddi. ............ Tudalen 28

**Argymhelliad 5.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu:

- sut y mae'n disgwyl i gyrff cyhoeddus rhestredig gydweithio ar draws ffiniau gweinyddol wrth baratoi cynlluniau lleol;
- sut y bydd yn meithrin gallu cyrff cyhoeddus rhestredig fel bod ganddynt y gefnogaeth a'r arbenigedd cywir i baratoi a gweithredu cynlluniau lleol yn effeithiol;
- cadarnhau bod gan y Tîm Gweithredu ar gyfer y Bil adnoddau sydd wedi'u neilltuo i gyflawni'r argymhelliad hwn.

Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau y bydd hyn ar waith cyn dadl Cyfnod 1 sydd wedi'i threfnu ar gyfer 17 Rhagfyr 2025. ............................................................ Tudalen 34

**Argymhelliad 6.** Nodwn, o dan adran 7(2), y rhagwelir y bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru gynhyrchu adroddiadau cynnydd ym mhob cyfnod o 3

blynedd ar ôl i'r strategaeth genedlaethol gael ei chyhoeddi. Rydym yn argymell bod yr adroddiadau cynnydd cynnar sy'n ofynnol gan y Bil, pe bai'n dod yn gyfraith, yn cynnwys ystyried a ddylid ychwanegu cyrff cyhoeddus eraill at y Bil. .................... Tudalen 35

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil yn ystyried sut y gall y broses benodi sicrhau bod anghenion y gymuned Fyddar yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yn y broses benodi ar gyfer y Cynghorydd IAP. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion ynghylch hyn mewn ymateb i'r adroddiad hwn, yr ydym yn ei ddisgwyl mewn pryd ar gyfer dadl Cyfnod 1 a gynhelir ar 17 Rhagfyr 2025. .................... Tudalen 41

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell y dylai rôl y Cynghorydd IAP gael ei chydnabod fel penodiad cyhoeddus sy'n gymwys i fod yn destun proses graffu cyn penodi a bod y pwyllgor priodol yn y Senedd nesaf yn cael cynnig y cyfle i gynnal gwrandawiad cyn penodi gyda'r ymgeisydd a ffefrir. Rydym yn cytuno y gellir cyflawni'r newid hwn yn anffurfiol drwy gytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a'r Senedd ac y dylid gwneud hynny nawr er mwyn rhoi arwydd cadarn o fwriad i lywodraeth nesaf Cymru a'r Senedd nesaf. .................... Tudalen 42

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell y dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil egluro'r opsiynau sydd ar gael i achwynwyr sydd angen cymorth mewn achosion lle mae gwasanaethau cyhoeddus yn methu â chyflawni eu dyletswyddau o dan y Bil (os caiff ei ddeddfu gan y Senedd) ac yn ystyried a oes angen unrhyw newidiadau i'r Memorandwm Esboniadol a allai helpu yn hynny o beth. .................... Tudalen 49

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell y dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 a fyddai'n gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi canllawiau ar y llwybr priodol i arwyddwyr IAP allu gwneud cwynion ynghylch mynediad at wasanaethau. Dylai hyn ddod law yn llaw â dyletswydd i ymgynghori ar y canllawiau hynny a phennu Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymgynghorai mandadol. .................... Tudalen 49

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau ymgysylltiad a chydgynhyrchu drwy osod gofyniad ffurfiol ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ag arwyddwyr IAP Byddar ar y strategaeth a'r canllawiau IAP cenedlaethol. .................... Tudalen 53

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynyddu ei hymdrechion i ehangu'r gweithlu o ddehonglwyr IAP ac yn ymrwymo i:

- adolygu'r amserlenni ar gyfer camau gweithredu y dylid eu cymryd ym Map Llwybrau Grŵp Rhanddeiliaid IAP i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Bil;
- Gosod targedau blynyddol ar gyfer hyfforddi a recriwtio dehonglwyr a chyfieithwyr IAP;
- Gosod terfynau amser targed cliriach a mwy uchelgeisiol i atal pethau rhag llithro. ........Tudalen 61

**Casgliad 1.** Mae'n hanfodol bod y Bil hwn, os daw'n gyfraith, yn arwain at newid gwirioneddol a gweladwy, yn hytrach na newid symbolaidd. ........Tudalen 20

**Casgliad 2.** Er mwyn sicrhau newid ystyrlon, dylai'r strategaeth IAP genedlaethol gynnwys targedau clir, mesuradwy ac amserol. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth nesaf Cymru yn sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y strategaeth IAP ddrafft a gyhoeddir y cynhelir ymgynghoriad arni os daw'r Bil yn gyfraith. ........Tudalen 27

**Casgliad 3.** Mae mwyafrif aelodau'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad na ellir ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol i'r Cynghorydd IAP fod yn berson byddar heb y risg o wynebu her gyfreithiol a allai danseilio'r Bil yn ei gyfanrwydd. Mae mwyafrif y Pwyllgor o'r farn bod hon yn lefel annerbyniol o risg. Roedd dau Aelod yn anghytuno â'r casgliad hwn. Roeddent o'r farn bod y risgiau hyn yn cael eu gorbwyso gan y gefnogaeth gref a fynegwyd gan y rhan fwyaf o unigolion a roddodd dystiolaeth o blaid ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol bod y Cynghorydd IAP yn fyddar........ Tudalen 41

**Casgliad 4.** Rydym yn croesawu adroddiad y grŵp rhanddeiliaid IAP ac yn gobeithio y bydd yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer symud materion yn eu blaenau p'un a yw'r Bil hwn yn cael ei basio ai peidio. ........Tudalen 53

**Casgliad 5.** Y bygythiad mwyaf i weithredu'r Bil hwn yn effeithiol, os daw'n gyfraith, yw prinder cyfieithwyr a dehonglwyr IAP yng Nghymru. Mae hyn yn galw am gamau gweithredu parhaus ar unwaith. ........Tudalen 61

**Casgliad 6.** Rydym yn nodi'r pryderon hyn ac yn credu y dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil ystyried diwygio'r costau yn y Memorandwm Esboniadol i ystyried chwyddiant. ........Tudalen 62

# 1. Cyflwyniad

**1.** Mae'r Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (IAP) yn Fil a gynigir gan Aelod a gyflwynwyd ar 14 Gorffennaf 2025 gan Mark Isherwood AS.

**2.** Anfonwyd y Bil at ein Pwyllgor gan y Pwyllgor Busnes i graffu arno a'r dyddiad cau ar gyfer adrodd yw 5 Rhagfyr 2025.

**3.** Y cylch gorchwyl oedd ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) a'r angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r bwriad polisi a ddatganwyd. Ystyriodd y Pwyllgor hefyd ddarpariaethau allweddol y Bil sy'n cynnwys:

- Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP.
- Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi Strategaeth IAP Genedlaethol.
- Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau.
- Dyletswydd ar gyrff cyhoeddus penodedig i gyhoeddi cynlluniau IAP.
- Penodi cynghorydd IAP.
- Dyletswyddau adrodd i'w gosod ar y cyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r dyletswyddau hyn.
- Priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.

Ystyriodd y Pwyllgor hefyd:

- Unrhyw rwystrau posibl rhag rhoi'r darpariaethau hyn ar waith, ac a yw'r Bil yn ystyried y rhwystrau hyn.
- Priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.
- A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil;
- Goblygiadau ariannol y Bil.

## Dull gweithredu'r Pwyllgor

**4.** Fe wnaethom ystyried ein dull gweithredu mewn cyfarfod arbennig a alwyd gan y Cadeirydd ar 21 Gorffennaf 2025.

**5.** Cytunwyd i gynnal ymgynghoriad rhwng 30 Gorffennaf a 12 Medi 2025. Gwahoddwyd ymatebwyr i gymryd rhan ar-lein, drwy'r post a thrwy e-bost. Dyma'r tro cyntaf erioed i Bwyllgor y Senedd allu derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad yn Iaith Arwyddion Prydain (IAP), yn ogystal â dwy iaith Swyddogol y Senedd.

### Ymateb i'r ymgynghoriad yn Iaith Arwyddion Prydain (BSL)

I lwytho ymatebion yn Iaith Arwyddion Prydain, rhaid defnyddio'r ffurflen ymateb ar-lein.

Cyn llenwi'r ffurflen, paratowch fideo ohonoch chi'n arwyddo eich ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad.




Pan fydd eich fideo yn barod, llenwch y ffurflen i gael mynediad at ein platfform llwytho fideos.
https://youtu.be/SSIQ_oThvRE

### Deall Proses Ddeddfwriaethol Senedd Cymru a Chraffu yng Nghyfnod 1

Y Senedd sy'n gyfrifol am wneud deddfau mewn meysydd datganoledig yng Nghymru. Cyn dod yn gyfraith, mae Biliau yn mynd drwy broses sydd â'r nod o sicrhau bod Aelodau o'r Senedd wedi ystyried y Bil a'i ganlyniadau yn drylwyr. Fel rhan o'r broses, gall Aelodau ofyn i grŵp llai o Aelodau (a elwir yn bwyllgorau) o wahanol bleidiau gwleidyddol gyflawni gwaith manwl ar y cynigion. Fel arfer, bydd y pwyllgor yn casglu tystiolaeth gan bartïon â diddordeb ac arbenigwyr, cyn adrodd yn ôl i'r Senedd gyda'u canfyddiadau.




Mae'r broses hon yn helpu i sicrhau bod deddfau'n cael eu penderfynu ar sail dryloyw a democrataidd.
https://youtu.be/Hzw-8nEZRG0

**6.** Roeddem yn awyddus i sicrhau bod ein trafodion yn adlewyrchu ysbryd y Bil. Roeddem wrth ein bodd bod gwasanaeth dehongli IAP byw ar gael ar gyfer pob un o'n chwe chyfarfod pan ystyriwyd y Bil.[1]

**7.** Cafwyd tystiolaeth gan dystion yn ystod sesiynau a gynhaliwyd rhwng mis Medi a mis Hydref 2025. Er tryloywder, gofynnwyd i unrhyw un a ymddangosodd gerbron y Pwyllgor yn ystod y sesiynau hyn ddatgan ar gofnod unrhyw gyfranogiad neu rôl yn y gwaith o ddatblygu'r Bil. Cynhaliodd ein Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion grwpiau ffocws gyda phobl Fyddar yn uniongyrchol i lywio ein gwaith craffu. Darperir manylion llawn gan gynnwys dolenni i drawsgrifiadau yn yr Atodiadau.

**8.** Fel bob amser, rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a gyfrannodd at ein gwaith.

***Ffigur 1 ffigurau amcangyfrifedig allweddol yn ymwneud ag Iaith Arwyddion Prydain (IAP) yng Nghymru***[2]

| | |
|---|---|
| **900** | Nifer y preswylwyr 3 oed neu hŷn a nododd eu bod yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain fel eu prif iaith yn y Cyfrifiad diwethaf |
| **7,200** | Amcangyfrif y BDA o nifer y defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain yng Nghymru |
| **Rhwng 5,600 - 7,300** | Amcangyfrifir bod poblogaeth Iaith Arwyddion Prydain Cymru rhwng 5,600 a 7,300 yn ôl Llywodraeth Cymru. |
| **54** | Nifer y dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru. |

[1] Ar wahân i 13 Hydref pan ddarparwyd gwasanaeth dehongli byw ar gyfer y sesiwn gyntaf a bu'n rhaid ei ychwanegu'n ôl-weithredol at yr ail sesiwn.
[2] Daw'r ffigurau o'r ffynonellau canlynol: Swyddfa Ystadegau Gwladol, Iaith, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021, Tachwedd 2022; Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain, BSL Statistics, Bowen, R a Holtom, D (2020) Adolygiad Annibynnol o Ddarpariaeth Iaith Arwyddion Prydain i Oedolion yng Nghymru; BSL 32 NRCDP

## Y derminoleg a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

**9.** Rydym yn cydnabod pwysigrwydd iaith, y bydd dewisiadau a safbwyntiau pobl yn amrywio, a bod pob unigolyn yn unigryw. Rydym am i'n hiaith fod yn gynhwysol ac adlewyrchu amrywiaeth a bywiogrwydd y cymunedau rydym yn eu cynrychioli. Yn yr adroddiad hwn, byddwn yn defnyddio'r term "arwyddwyr IAP" yn hytrach na "defnyddwyr IAP" ac "arwyddwyr IAP Byddar" wrth gyfeirio at arwyddwyr IAP sy'n fyddar yn feddygol neu'n glywedol.

# 2. Egwyddorion cyffredinol

Nod cyffredinol y Bil yw hybu'r defnydd o Iaith Arwyddion Prydain (IAP). Mae cefnogaeth eang i'r nod hwn ac i egwyddorion cyffredinol y Bil. Er bod fframweithiau polisi a fframweithiau cyfreithiol presennol yn darparu rhai hawliau, mae'r Bil hwn yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar IAP fel iaith.

**10.** Roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gawsom yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.[3]

**11.** O ran y rhai nad oeddent yn cefnogi'r Bil, roedd hynny'n seiliedig ar y ffaith nad oeddent yn credu bod y Bil yn mynd yn ddigon pell, neu oherwydd eu bod yn teimlo bod Deddf Cydraddoldeb 2010 eisoes yn darparu digon o amddiffyniad i arwyddwyr IAP.[4]

## Yr angen am ddeddfwriaeth

**12.** Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn nodi bod tri phrif reswm pam mae angen deddfwriaeth:

- I sicrhau bod Cymru yn cydymffurfio â chynseiliau a osodwyd mewn rhannau eraill o'r DU drwy osod dyletswyddau ar y llywodraeth a chyrff rhestredig i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP a sicrhau cydraddoldeb deddfwriaethol ag awdurdodaethau eraill yn y DU.
- Er mwyn cydnabod anghenion ieithyddol arwyddwyr IAP a'u hunaniaeth a'u treftadaeth ddiwylliannol; a
- I chwalu'r rhwystrau y mae arwyddwyr IAP Byddar yn eu hwynebu ar hyn o bryd wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus.

[3] Roedd 30 o blith 32 o ymatebion ysgrifenedig a gafwyd yn cefnogi'r egwyddorion cyffredinol.
[4] BSL 30 Undeb Cenedlaethol Dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain; BSL 19 Cyngor Sir Fynwy

**13.** Tynnodd nifer o gefnogwyr y Bil sylw at y diffyg cynnydd o fewn y fframwaith cyfreithiol a'r fframwaith polisi presennol fel un o'r prif resymau dros gefnogi'r Bil.

**14.** Dywedodd Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain (BDA), Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBS Caerffili), Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (CBS Wrecsam), Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar (RNID Cymru), Anabledd Cymru ac eraill nad yw deddfwriaeth cydraddoldeb a safonau hygyrchedd presennol wedi mynd i'r afael yn ddigonol â'r rhwystrau y mae arwyddwyr (IAP) Byddar yn eu hwynebu, a nodwyd y byddai'r Bil yn rhoi cymhelliant i gyrff cyhoeddus fabwysiadu arferion da.[5]

**15.** Er enghraifft, dywedodd CBC Caerffili, er bod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn darparu fframwaith ar gyfer hygyrchedd, nid yw'n ddigon penodol nac eglur i sicrhau mynediad teg i arwyddwyr IAP.[6]

**16.** Dywedodd arwyddwyr IAP byddar a gyfrannodd at ein grwpiau ffocws:

> *"dyw'r Ddeddf Cydraddoldeb ddim yn gweithio i ni, a dyw'r safonau hygyrchedd ym maes iechyd ddim yn gweithio - felly does yna prin unrhyw sector yng Nghymru sy'n gweithio i ni. Felly rydyn ni eisiau gwelliannau ym mhobman…"*[7]

**17.** Dywedodd RNID Cymru a'r BDA wrthym fod angen y Bil er mwyn sicrhau cydraddoldeb â deddfwriaeth mewn rhannau eraill o'r DU, ac i sicrhau nad yw arwyddwyr BSL Byddar yng Nghymru dan anfantais.[8]

**18.** Dywedodd yr Athro Jemina Napier o Brifysgol Herriot-Watt fod Deddfau IAP yn yr Alban a San Steffan wedi helpu i roi mwy o amlygrwydd i'r gymuned fyddar a chreu mwy o atebolrwydd.[9]

[5] Tystiolaeth ysgrifenedig, BSL 23 Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain, BSL 07 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, BSL 17 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, BSL 02 Anabledd Cymru
[6] Tystiolaeth ysgrifenedig, BSL 07 CBS Caerffili
[7] Bil Iaith Arwyddion Prydain: canfyddiadau ymgysylltu
[8] BSL 23 Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain
[9] Gweler Ddeddf Iaith Arwyddion Prydain (Yr Alban) 2015 a Deddf Iaith Arwyddion Prydain 2022

## Cydnabyddiaeth o IAP fel iaith a diwylliant

**19.** Roedd sawl sefydliad, gan gynnwys y BDA, Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar Cymru (NDCS), a Chyngor Cymru i Bobl Fyddar (WCDP) yn croesawu'r ffocws yn y Bil ar IAP fel iaith a diwylliant.[10]

**20.** Disgrifiodd Charles Hampton o WCDP effaith bosibl y Bil:

> *"It will impact deaf people in all walks of life, especially for those that are part of the Welsh signing community. It enables them to be aware of their rights and to have a right to eliminate barriers that they're currently facing and know that they can have provisions in their own language, going forward. It's a fantastic start, and I feel that will grow and it will be a bonus for those in future generations."*[11]

**21.** Disgrifiodd Tom Lichy o'r BDA y ddeddfwriaeth fel cam gwerthfawr iawn ymlaen o ran cydnabod diwylliant a threftadaeth pobl Fyddar, a chydnabod eu hunaniaeth aml-lefel fel pobl fyddar ac anabl.[12]

**22.** Dywedodd Dr Christopher Shank, ieithydd o Brifysgol Bangor, ei fod yn gam pwysig o ran cydnabod, dilysu a diogelu presenoldeb, hawliau a hunaniaethau ieithyddol grŵp ieithyddol a diwylliannol lleiafrifol cynhenid nad yw'n cael ei gydnabod yn ddigonol ac sy'n aml yn cael ei anwybyddu yng Nghymru.[13]

**23.** Yn yr un modd, dywedodd yr Athro Jemina Napier fod angen y Bil nid yn unig i wella mynediad at wasanaethau cyhoeddus ond hefyd oherwydd y cyfleoedd y mae'n eu cynnig i hybu IAP fel iaith y genedl a hybu IAP fel iaith grŵp lleiafrifol, ac yng Nghymru mae'n lleiafrif o fewn lleiafrif, mewn rhai ffyrdd.[14]

**24.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet, Jane Hutt AS, fod Llywodraeth Cymru wedi cwestiynu'r angen am ddeddfwriaeth i ddechrau ac wedi ymchwilio i a ellid cyflawni'r un nodau drwy ddatblygu polisi. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod wedi cael trafodaethau helaeth â'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil, Mark Isherwood AS, ac y byddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r ddeddfwriaeth.[15]

---

[10] BSL 23 Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain; BSL 26 Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar Cymru; Cofnod y Trafodion paragraff 143, 22 Medi 2025
[11] Cofnod y Trafodion, paragraff 143, 22 Medi 2025
[12] Cofnod y Trafodion, paragraff 146, 22 Medi 2025
[13] BSL 20 Dr Christopher Shank
[14] Cofnod y Trafodion, paragraff 293, 22 Medi 2025
[15] Cofnod y Trafodion, paragraff 186, 13 Hydref 2025

**25.** Dywedodd Mark Isherwood AS (yr Aelod sy'n Gyfrifol) mai nod y Bil oedd sicrhau nad Cymru oedd yr unig wlad yn y DU heb ddeddfwriaeth IAP. Dywedodd eu bod wedi ymchwilio i fodelau a ddefnyddir mewn gwledydd eraill a'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o'u heffaith fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Bil.[16]

## Deddfwriaeth fframwaith

**26.** Mae'r Bil ei hun yn amlinellu fframwaith cynllunio ac adrodd ar gyfer Gweinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus ond nid yw'n manylu ar y camau gweithredu penodol y bydd eu hangen i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP. Yn hytrach, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus rhestredig nodi eu blaenoriaethau a'u camau gweithredu arfaethedig yn y strategaeth IAP genedlaethol a chynlluniau IAP lleol.

**27.** Er bod rhanddeiliaid wedi nodi nifer o gamau yr oeddent am eu gweld i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP ac yn awyddus i weld cynnydd, ni chlywodd y Pwyllgor dystiolaeth gref y dylid gosod camau gweithredu neu dargedau penodol ar wyneb y Bil.

**28.** Roedd y BDA yn anghytuno â gosod targedau penodol o fewn y Bil a dywedodd y dylai'r ddeddfwriaeth yn lle hynny rymuso'r gymuned Fyddar i arwain y gwaith o benderfynu ar feysydd blaenoriaeth i weithredu.[17]

**29.** Yn yr un modd, dywedodd Dr Rob Wilks mai'r anhawster oedd bod cynifer, ac os unrhyw beth, gormod o broblemau i'w datrys ac roedd o blaid sicrhau bod ffocws mwy cyffredinol i'r Bil. Pwysleisiodd Dr Wilks bwysigrwydd sicrhau bod barn a phrofiadau pobl fyddar yn cael eu bwydo i'r gwaith o lunio strategaethau a chynllunio.[18]

**30.** Dywedodd yr Athro Jemina Napier y gallai fframwaith deddfwriaethol ehangach fel y'i darperir gan y Bil ganiatáu archwiliad pellach o ba anghenion a gofynion a allai ddod i'r amlwg. Fodd bynnag, heb dargedau penodol, dywedodd fod risg y gallai camau gweithredu gael eu dadflaenoriaethu.[19]

**31.** Un o bryderon y rhanddeiliaid oedd na fyddai'r Bil yn cyflawni gwelliannau pendant i arwyddwyr IAP Byddar. Dadleuodd Dr Rob Wilks fod perygl i'r Bil

[16] Cofnod y Trafodion, paragraff 128, 15 Medi 2025
[17] Cofnod y Trafodion, paragraff 186, 22 Medi 2025
[18] Cofnod y Trafodion, paragraffau 267-268, 22 Medi 2025
[19] Cofnod y Trafodion, paragraff 352, 22 Medi 2025

atgyfnerthu'r camargraff gyfreithiol o ran byddardod, sy'n cyfeirio at gyfraith sy'n ymddangos yn flaengar ond, yn ymarferol, yn cyflawni fawr ddim newid ystyrlon.[20]

**32.** Dywedodd Kieran Sawdon o'r NDCS fod risg y byddai'r dyletswyddau'n dod yn berfformiadol o ran eu natur ond dadleuodd y gellid lliniaru hyn drwy rôl y Cynghorydd IAP a'r cydbwysedd democrataidd yn y Bil.[21]

**33.** Cyfeiriodd yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil, Mark Isherwood AS, at y Bil fel Bil fframwaith ar sawl achlysur gan gyfaddef, mewn byd delfrydol, y byddai wedi ffafrio cynnwys camau gweithredu mwy penodol ar wyneb y Bil.[22] Dadleuodd, fodd bynnag, y byddai prosesau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil megis y gofyniad i adrodd ar gynnydd yn lliniaru'r risgiau hyn. Yn bwysicach fyth, dywedodd fod angen clywed gan gymunedau Byddar, y Cynghorydd IAP a'r panel cynorthwyo cyn penderfynu ar y blaenoriaethau. Dadleuodd hefyd y dylai Gweinidogion Cymru gael disgresiwn i weithredu'r ddeddfwriaeth, a dylai cyrff cyhoeddus allu ymateb i flaenoriaethau lleol.[23]

**34.** Ychwanegodd yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil mai'r flaenoriaeth oedd cael y consensws angenrheidiol i roi'r Bil ar y llyfr statud.[24]

**35.** Pan gafodd ei holi, dadleuodd Ysgrifennydd y Cabinet nad oedd y Bil yn Fil fframwaith mewn gwirionedd gan nad oedd yn dibynnu ar ddeddfwriaeth eilaidd i lenwi'r manylion. Fodd bynnag, o ran yr agweddau ymarferol, cadarnhaodd mai Llywodraeth newydd yn y dyfodol fyddai'n gyfrifol am ddatblygu manylion y strategaeth genedlaethol a chanllawiau IAP.[25]

## Diffiniad o IAP

**36.** Nid yw'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn cynnwys diffiniad o IAP ac mae'n cyfeirio'n gyfan gwbl at IAP ac nid at ddulliau cyfathrebu eraill a ddefnyddir gan bobl fyddar.

**37.** Mewn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor ynghylch pam y cafodd dulliau cyfathrebu eraill eu hepgor, dywedodd yr RNID, y BDA a WCDP, er bod dulliau cyfathrebu eraill yn tueddu i fod yn offer cyfathrebu sy'n defnyddio agweddau ar

[20] BSL 09 Dr Rob Wilks, Prifysgol Gorllewin Lloegr
[21] Cofnod y Trafodion, paragraff 23, 29 Medi 2025
[22] Cofnod y Trafodion, paragraff 51, 15 Medi 2025
[23] Cofnod y Trafodion, paragraff 42, 15 Medi 2025
[24] Cofnod y Trafodion, paragraff 51, 15 Medi 2025
[25] Cofnod y Trafodion, paragraffau 192 a 193, 13 Hydref 2025

IAP neu Saesneg a Chymraeg, mae IAP yn iaith ynddi'i hun.[26] Felly, roeddent yn dadlau ei bod yn briodol bod y Bil yn canolbwyntio ar IAP, gan awgrymu y byddai grymuso arwyddwyr IAP Byddar i ddylunio a chyflawni atebion yn helpu i ysgogi gwelliannau cyffredinol.[27]

**38.** Tynnodd rhai awdurdodau lleol fel CBS Caerffili sylw at yr amrywiaeth o anghenion cyfathrebu sy'n bodoli o fewn cymunedau byddar gan ddadlau y dylid adlewyrchu hyn yn y Bil a'i weithrediad. Awgrymodd y BDA y gallai fod angen cymorth ychwanegol ar bobl ddall a byddar sy'n defnyddio arwyddion cyffyrddol.[28]

**39.** Disgrifiodd Dr Kate Attfield y diffiniad o IAP a ddefnyddir ym mharagraff 162 o'r Memorandwm Esboniadol 162 fel un sy'n anghywir a nawddoglyd. Dadleuodd Dr Attfield fod ei diffiniad hi o IAP – un sy'n ei gwneud yn glir bod gan IAP ei chystrawen a'i gramadeg ei hun – yn well ac y dylid ei gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol. Awgrymodd y dylai'r disgrifiad ei gwneud yn glir nad yw dulliau eraill o gyfathrebu, fel Makaton neu Saesneg â Chymorth Arwyddion, wedi'u cynnwys yn y diffiniad.[29]

**40.** Dywedodd Dr Christopher Shanks o Brifysgol Bangor a Dr Rob Wilks o Brifysgol Gorllewin Lloegr y dylid cydnabod amrywiadau rhanbarthol o IAP o fewn y diffiniad.[30]

**41.** Dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil wrthym fod hwn yn Fil iaith yn ddiedifar. Fodd bynnag, dywedodd ei fod yn gobeithio ac yn disgwyl y byddai'r Bil yn hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth bellach o faterion ehangach yn ymwneud â byddardod a cholli clyw ac yn gwella'r ddarpariaeth sy'n angenrheidiol i gefnogi'r grwpiau hynny.[31]

## Barn y Pwyllgor

### Egwyddorion cyffredinol y Bil

**42.** Nodwn fod y mwyafrif helaeth o'r dystiolaeth a gawsom yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.

[26] Cofnod y Trafodion, paragraffau 20 - 22, 152, 22 Medi 2025
[27] Cofnod y Trafodion, paragraff 152, 22 Medi 2025
[28] Cofnod y Trafodion, paragraff 152, 22 Medi 2025
[29] BSL 10 Dr Kate Attfield
[30] Cofnod y Trafodion, paragraff 180, 22 Medi 2025
[31] Cofnod y Trafodion, paragraff 17, 15 Medi 2025

**43.** Wrth ystyried yr angen am ddeddfwriaeth, clywsom ddadleuon cryf i gefnogi'r achos dros y Bil hwn. Dadleuodd rhywfaint o'r dystiolaeth nad oes angen y Bil a bod digon o amddiffyniadau eisoes yn bodoli i arwyddwyr IAP o dan bolisïau a deddfwriaeth bresennol, yn enwedig Deddf Cydraddoldeb 2010. Fodd bynnag, dim ond tystiolaeth gyfyngedig a oedd ar gael i gefnogi hyn. Dywedodd mwyafrif y rhanddeiliaid ac arwyddwyr IAP eu hunain wrthym fod anghenion arwyddwyr yn cael eu hanwybyddu yn amlach na pheidio a bod cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus yn gallu bod yn her i lawer gormod o bobl fyddar.

**44.** Mae'n bryder, fel y mae pethau'n sefyll, oni bai bod y Senedd yn gweithredu drwy basio deddfwriaeth, y bydd arwyddwyr IAP yng Nghymru yn parhau i fod ag amddiffyniadau statudol llawer gwannach nag mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Er mwyn osgoi'r canlyniad hwn, mae angen clir i ddeddfu er mwyn sicrhau cydraddoldeb â deddfwriaeth a basiwyd gan Senedd y DU, Senedd yr Alban a deddfwriaeth y disgwylir iddi gael ei phasio gan Gynulliad Gogledd Iwerddon.

**45.** Rydym hefyd yn nodi'r effaith gadarnhaol bosibl y gallai'r Bil hwn ei chael ar wella statws a chydnabyddiaeth IAP fel iaith leiafrifol a diwylliant unigryw. Mae'n amlwg o'n gwaith bod hyn yn bwysig i arwyddwyr IAP yng Nghymru ar lefel symbolaidd yn ogystal â lefel ymarferol. Fel gwlad a chanddi hanes o frwydro i hybu iaith leiafrifol arall, rydym yn falch o gefnogi'r ddeddfwriaeth hon.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell y dylai'r Senedd gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) yng Nghyfnod 1.

### Natur fframwaith y ddeddfwriaeth

**46.** Byddai'r Bil hwn yn sefydlu fframwaith cynllunio ac adrodd a fyddai'n ceisio hwyluso a hybu'r defnydd o IAP gan Lywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus allweddol. Gan fod tystiolaeth sylweddol i awgrymu nad yw'r trefniadau presennol yn gweithio'n effeithiol yng nghyd-destun IAP, mae'r nod hwn yn ganmoladwy ac yn angenrheidiol.

**47.** Er bod Ysgrifennydd y Cabinet yn anghytuno ag i ba raddau y gellir ystyried y Bil yn "Fil fframwaith" yn ystyr buraf y term, mae'n nodedig y bydd llawer iawn o'r manylion ymarferol yn cael eu cynnwys mewn strategaethau, cynlluniau a chanllawiau yn y dyfodol, yn hytrach nag ar wyneb y ddeddfwriaeth. Mae hyn yn wrthgyferbyniad amlwg â'r Bil Iaith Arwyddion sy'n cael ei ystyried gan Gynulliad

Gogledd Iwerddon.[32] Rydym yn deall y rhesymeg dros y diffyg manylder hwn ac yn derbyn yr angen am hyblygrwydd ac ymgysylltu ac ymgynghori pellach â rhanddeiliaid. Bydd barn arwyddwyr IAP Byddar yn allweddol wrth lunio'r dogfennau hyn ac rydym yn croesawu'r sicrwydd a gafwyd yn hynny o beth, fel rhan o'r broses hon.

**48.** Serch hynny, gall cyfyngiadau fod yn gysylltiedig â dibynnu'n ormodol ar ddull fframwaith mewn perthynas â chraffu, atebolrwydd ac eglurder cyfreithiol. Yn anad dim, rydym yn ymwybodol o'r pryderon a fynegwyd inni gan randdeiliaid fod y Bil mewn perygl o fod yn "berfformiadol" neu y gallai atgyfnerthu "camargraff" gyfreithiol o ddiogelwch i arwyddwyr IAP Byddar os na fydd geiriau'n cael eu hategu gan gamau gweithredu pendant.

**Casgliad 1.** Mae'n hanfodol bod y Bil hwn, os daw'n gyfraith, yn arwain at newid gwirioneddol a gweladwy, yn hytrach na newid symbolaidd.

**Y diffiniad o IAP**

**49.** Nodwn nad oes diffiniad o IAP yn y Bil. Ar ben hynny, rydym yn nodi'r pryderon y gallai fod angen egluro a mireinio ymhellach y disgrifiad o IAP a ddefnyddir yn y Memorandwm Esboniadol.[33] Ni chawsom ddigon o dystiolaeth i lunio barn bendant ynghylch a ddylid ychwanegu diffiniad at y Bil ei hun, fodd bynnag, credwn fod angen ystyried y manteision a'r anfanteision ymhellach.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil yn adolygu'r disgrifiad o IAP a ddefnyddir yn y Memorandwm Esboniadol i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan randdeiliaid ac yn ystyried rhinweddau cynnwys diffiniad clir o IAP ar wyneb y Bil ac a oes angen gwelliannau i gyflawni hyn. Dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil anelu at ymateb i'r argymhelliad hwn erbyn 7 Ionawr 2026 fel y gall yr Aelodau ystyried yr ymateb cyn trafodion Cyfnod 2, os bydd y Bil yn mynd yn ei flaen.

[32] Gweler Cynulliad Gogledd Iwerddon, Bil Iaith Arwyddion, fel y'i cyflwynwyd
[33] Yn benodol, paragraff 162 o'r Memorandwm Esboniadol

# 3. Dyletswydd i hybu, a strategaeth a chanllawiau IAP

Mae'r bennod hon yn edrych ar adrannau 1 i 3 o'r Bil. Mae'r rhain yn ymwneud â rhai o'r dyletswyddau a osodir ar Weinidogion Cymru i hybu a hwyluso IAP.

## Y ddyletswydd i hybu a hwyluso IAP

**51.** Mae Adran 1 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP.[34] Mynegodd mwyafrif clir o randdeiliaid gefnogaeth i'r ddyletswydd hon gan gynnwys NDCS, Dr Rob Wilks, Cyngor Dinas Casnewydd, CBS Merthyr Tudful, CBS Caerffili, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL), a Chymwysterau Cymru.

**52.** Pwysleisiodd sawl sefydliad, awdurdodau lleol yn benodol, Dr Kate Attfield, ac eraill yr angen am gyllid, buddsoddiad ac arweinyddiaeth genedlaethol ychwanegol i gyd-fynd â'r ddyletswydd hon.[35]

**53.** Dywedodd CLlLC ei bod yn parhau i fod yn bryderus ynghylch y gallu i "gyflawni dyletswyddau yn y Bil" gan dynnu sylw at gyllid ac argaeledd dehonglwyr fel agweddau arbennig o heriol.[36]

**54.** Rhybuddiodd y Cofrestri Cenedlaethol o Weithwyr Cyfathrebu sy'n gweithio gyda Phobl Fyddar a Dallfyddar:

> *"The success of this provision will, however, depend on how it is operationalised. Simply imposing a duty without specifying the mechanisms for delivery risks creating an obligation that is symbolic but lacks substance."*[37]

[34] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (Fel y'i cyflwynwyd)
[35] BSL 25 Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar, BSL 27 Cyngor Dinas Casnewydd, BSL 29 Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, BSL 05 Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL), BSL 07 CCBC, BSL 01 Cymwysterau Cymru
[36] BSL 23 CLlLC
[37] BSL 32 - Cofrestri Cenedlaethol o Weithwyr Cyfathrebu sy'n gweithio gyda Phobl Fyddar a Dallfyddar

**55.** Yn yr un modd, dywedodd y Gymdeithas Dehonglwyr Iaith Arwyddion (ASLI) wrthym nad oes canlyniadau penodol yn gysylltiedig â'r dyletswyddau i hybu a hwyluso IAP a bod perygl i hyn ddod yn ddyhead os na chaiff ei ategu gydag adnoddau digonol.[38]

**56.** Roedd Dr Rob Wilks yn cytuno â barn ASLI gan gymharu'r ddyletswydd yn adran 1 â deddfwriaeth debyg mewn awdurdodaethau eraill yn y DU gan ddod i'r casgliad ei bod yn fwyaf tebyg i Ddeddf yr Alban:

> *"It is stronger than the English Act, which only imposes a duty to report on the promotion and facilitation of BSL, rather than a duty to promote and facilitate BSL. The Northern Ireland Bill will only impose a duty to promote on one government department, but gives deaf individuals the right to use BSL or ISL in everyday activities, and also includes a duty to promote deaf culture, not just BSL and ISL."*[39]

**57.** Dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil wrthym fod y geiriau "hybu" (promote) a "hwyluso" (*facilitate*) yn cael eu defnyddio yn Neddf Iaith Arwyddion Prydain (Yr Alban) 2015 a Deddf Iaith Arwyddion Prydain 2022 a fyddai'n sicrhau bod "dull cyson yn cael ei gymryd ar draws deddfwrfeydd eraill y DU".[40]

## Strategaeth IAP genedlaethol

**58.** Bydd Adran 2 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi strategaeth genedlaethol IAP sy'n nodi sut y byddant yn hybu ac yn hwyluso'r defnydd o IAP wrth arfer eu swyddogaethau a sut y byddant yn annog cyrff cyhoeddus rhestredig i wneud yr un peth.

**59.** Dywedodd rhanddeiliaid, gan gynnwys y BDA, a rhai awdurdodau lleol y dylai'r strategaeth IAP genedlaethol gynnwys camau gweithredu neu dargedau penodol, gyda therfynau amser, er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud.[41] Pwysleisiodd awdurdodau lleol ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) fod

[38] Tystiolaeth ysgrifenedig, BSL 08 Cymdeithas Dehonglwyr Iaith Arwyddion
[39] Tystiolaeth ysgrifenedig, BSL 08 Dr Rob Wilks, Prifysgol Gorllewin Lloegr
[40] PTN 3.1 Gohebiaeth at y Cadeirydd gan Mark Isherwood AS ynghylch Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru), 8 Hydref 2025
[41] Cofnod y Trafodion, paragraff 204, 22 Medi 2025; BSL 07 CBS Caerffili; BSL 29 Cyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful

angen i'r rhain fod yn realistig ac yn ymarferol a bod angen datblygu'r strategaeth gyda mewnbwn gan gyrff cyhoeddus rhestredig.[42]

**60.** Dywedodd CLlLC ei bod yn parhau i fod yn bryderus: "Nid oes manylion chwaith ynglŷn â'r hyn a fydd yn cael ei gynnwys yn y Strategaeth Genedlaethol ac felly [sut] fydd y Cynlluniau Lleol a fydd yn cael eu datblygu [yn] edrych."[43]

**61.** Nid oedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn cynnig mesurau penodol y byddai'r rhanddeiliaid yn hoffi eu gweld yn cael eu cynnwys yn y strategaeth ar ffurf targedau. Fodd bynnag, galwodd ASLI am dargedau clir o ran datblygu'r gweithlu gyda'r nod o gynyddu a chefnogi cadw dehonglwyr cymwys o fewn amserlen benodol.[44]

**62.** Dywedodd Dr Rob Wilks fod cynllun IAP cenedlaethol yr Alban wedi nodi amcanion amwys yn y gorffennol, a bod hyn wedi ei gwneud hi'n anodd mesur effaith.[45]

### Adolygu'r strategaeth

**63.** Mae is-adran 2 yn darparu ei bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi strategaeth o fewn 18 mis i'r Ddeddf ddod i rym ac adolygu'r strategaeth o leiaf bob chwe blynedd ac ar ôl unrhyw ddiweddariadau.

**64.** Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno'n gyffredinol â'r cynigion y dylid adolygu'r strategaeth o leiaf bob chwe blynedd. Awgrymodd rhai, gan gynnwys RNID Cymru, NDCS, Dr Rob Wilks a'r Athro Jemina Napier, y gallai'r cyfnod hwn fod yn rhy hir a phwysleisiodd yr angen i gadw rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn ymateb i dueddiadau sy'n dod i'r amlwg.[46]

**65.** Cadarnhaodd yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil fod y cyfnod chwe blynedd yn dod o ddeddfwriaeth debyg mewn mannau eraill yn y DU a'i fod wedi'i gytuno â Gweinidogion Llywodraeth Cymru. Ychwanegodd fod y gofyniad am adroddiad ar gynnydd bob tair blynedd yn golygu bod y Bil yn fwy trylwyr na modelau deddfwriaethol eraill.[47]

---

[42] BSL 17 CBS Wrecsam, BSL 21 CLlLC
[43] BSL 21 CLlLC
[44] Tystiolaeth ysgrifenedig, BSL 08 ASLI
[45] Cofnod y Trafodion, paragraff 157, 29 Medi 2025
[46] Cofnod y Trafodion, paragraff 44, 22 Medi 2025, BSL 09 Dr Rob Wilks, Prifysgol Gorllewin Lloegr; BSL 26 NDCS
[47] Cofnod y Trafodion, paragraff 29, 15 Medi 2025

**66.** O ran targedau, dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil, er mwyn i hyn fod yn effeithiol ac i fodloni ei ofynion statudol, y byddai angen gosod targedau ac amserlenni priodol o ran ar y materion allweddol, a dylai'r rheini fod yn berthnasol i'r cynlluniau hefyd. Ychwanegodd Mark Isherwood AS:

> *"But there will be variability, because some public bodies will be further ahead than others, some will have more resource available than others, some […] will agree to co-operate on a regionalised basis and make better use of the resource they already have. Some may be more possessive of their independence. But the hope and intention is that they will seek to comply with the legislation and make sure that they do what it says on the tin."*[48]

**67.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd y strategaeth genedlaethol yn nodi'r camau i Gymru ddod yn genedl sy'n parchu, yn hybu ac yn hwyluso IAP a'i bod o'r farn y dylai gynnwys camau mesuradwy ac amserol i gyflawni newid ystyrlon.[49]

## Canllawiau IAP

**68.** Byddai Adran 3 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i gyrff cyhoeddus rhestredig ar sut i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP wrth arfer eu swyddogaethau a bod yn rhaid i'r canllawiau hyn fod ar gael yn IAP.

**69.** Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn croesawu'r darpariaethau hyn; fodd bynnag, codwyd sawl mater penodol yn y dystiolaeth.

**70.** Pwysleisiodd RNID Cymru, CBS Merthyr, a'r NRCPD i gyd y rôl bwysig y bydd canllawiau'n ei chwarae o ran cefnogi cysondeb a gweithredu effeithiol.[50]

**71.** Galwodd sawl sefydliad fel Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Cwm Taf Morgannwg am gyhoeddi'r canllawiau'n amserol.[51] Aeth CLILC gam ymhellach ac awgrymodd y dylid diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ochr yn ochr â'r strategaeth IAP genedlaethol, neu o fewn un mis calendr. Dadleuodd y byddai unrhyw oedi yn rhoi mwy o straen ar gyrff

---

[48] Cofnod y Trafodion, paragraff 40, 20 Hydref 2025
[49] Cofnod y Trafodion, paragraff 199, 13 Hydref 2025
[50] BSL 29 CBS Merthyr Tudful
[51] BSL 25 BIP Cwm Taf Morgannwg

cyhoeddus ac yn cyfyngu ar yr amser sydd ar gael i awdurdodau lleol ddatblygu eu cynlluniau IAP ac ymgynghori arnynt.[52]

**72.** Dywedodd BIP Hywel Dda nad oedd iaith y Bil yn ddigon pendant ac y gallai hyn arwain at anghysondeb. Pwysleisiodd y byddai eglurder ynghylch adnoddau, asesu'r amgylchiadau lle mae angen gwasanaeth cyfieithu, a chefnogaeth i weithredu'r bil yn fuddiol.[53]

**73.** Pwysleisiodd NRCDP ac RNID Cymru yr angen i'r canllawiau gael eu datblygu mewn cydweithrediad ag arwyddwyr IAP Byddar, a gweithwyr proffesiynol, ac i hyn gael ei ddefnyddio fel sail i gynlluniau IAP lleol.[54]

**74.** Tynnodd RNID Cymru sylw hefyd at fethiant Llywodraeth y DU i sicrhau bod canllawiau ar gael i adrannau'r llywodraeth o dan adran 3 o Ddeddf Iaith Arwyddion Prydain 2022. Dywedodd wrthym nad oedd canllawiau i hysbysu adrannau ynghylch sut i wella eu darpariaeth o IAP wedi'u deddfu gan rybuddio:

> *"each department has published their own plan without the guidance, which has resulted in inconsistent actions across departments. Wales should learn from this process and ensure that the guidance is in place before the plans are developed to ensure that they meet the needs of deaf BSL users."*[55]

**75.** Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog sydd bellach yn gyfrifol am y materion hyn ynglŷn â'r pwynt hwn. Dywedodd y Gweinidog Gwladol dros Nawdd Cymdeithasol ac Anabledd, Syr Stephen Timms AS, wrthym fod y gwaith ar baratoi canllawiau wedi dechrau ac y byddent yn cael eu cyhoeddi maes o law. Eglurodd:

> *"The BSL Advisory Board, having come to the end of its initial three year term, is in the process of being reappointed, and I envisage that its new membership should be in place by the end of the year. I think*

[52] BSL 21 CLlLC
[53] BSL 03 Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
[54] BSL 24 RNID Cymru
[55] BSL 24 RNID Cymru

> *its likely that, once it starts meeting, it will set up a sub-group to support this piece of work."*[56]

**76.** O ran y strategaeth IAP genedlaethol, mae adran 2(4) yn nodi ei bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Cynghorydd IAP (sy'n cael ei greu gan y darpariaethau yn adran 5) ac "unrhyw bersonau eraill y maent yn hystyried eu bod yn briodol". Fodd bynnag, nid yw'r Bil fel y'i drafftiwyd yn gosod gofynion ymgynghori mewn perthynas â chanllawiau IAP.

**77.** Pwysleisiodd sawl sefydliad yr angen i ymgynghori â chyrff cyhoeddus wrth lunio a gweithredu'r strategaeth genedlaethol a'r canllawiau, gan gynnwys CBC Caerffili, CBC Wrecsam, BIP Cwm Taf Morgannwg, a Chyngor Dinas Casnewydd.[57]

**78.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'r canllawiau'n cael eu cyflwyno gan lywodraeth newydd ac y byddent yn ymdrin â ffyrdd o weithio i gefnogi gwaith cynllunio, adrodd a chyflawni cost-effeithiol, yn ogystal ag edrych ar ffyrdd y gall cyrff cyhoeddus gyhoeddi eu hadroddiadau eu hunain yn effeithiol fel rhan o gylchoedd adrodd presennol. Dywedodd Jane Hutt AS hefyd y dylid cyflwyno'r canllawiau ochr yn ochr â'r strategaeth IAP genedlaethol.[58]

**79.** Cadarnhaodd yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil mai'r disgwyliad yw y bydd y canllawiau'n cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r strategaeth neu'n fuan ar ôl hynny ac y byddai hyn yn cael ei ddatblygu gyda mewnbwn gan y Cynghorydd, y panel cynghori, a'r gymuned ehangach. Fodd bynnag, o ran yr amserlenni ar gyfer cyhoeddi'r canllawiau, cydnabu'r Aelod sy'n Gyfrifol a swyddog a oedd yn bresennol yn y cyfarfod gydag ef mai disgwyliad yn unig oedd hyn gan nad yw wedi'i gynnwys fel gofyniad ar wyneb y Bil.[59]

## Barn y Pwyllgor

### Y dyletswyddau yn adrannau 1 i 3

**80.** Mae'r dyletswyddau yn adrannau 1, 2 a 3 o'r Bil yn allweddol i amcanion cyffredinol y Bil. Roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gawsom yn cefnogi'r dyletswyddau hyn, fodd bynnag, roedd pryderon hefyd ynghylch sut y gellid eu

[56] Gohebiaeth gan Syr Stephen Timms, yr Adran Gwaith a Phensiynau at y Cadeirydd ynghylch canllawiau o dan Ddeddf Iaith Arwyddion Prydain 2022
[57] BSL 07 CBS Caerffili, BSL 17 CBS Wrecsam, BSL 25 BIP Cwm Taf Morgannwg, BSL 27 Cyngor Dinas Casnewydd
[58] Cofnod y Trafodion, paragraff 209, 13 Hydref 2025
[59] Cofnod y Trafodion, paragraffau 67 i 69, 20 Hydref 2025

cyflawni'n ymarferol. Yn benodol, nodwn fod sawl corff cyhoeddus yn pryderu y byddent yn ei chael hi'n anodd cyflawni dyletswyddau newydd heb adnoddau pwrpasol.

### Strategaeth IAP genedlaethol

**81.** Rydym yn fodlon bod darpariaethau Adran 2 sy'n nodi sut y bydd gofyn i Weinidogion Cymru baratoi'r strategaeth yn ddigonol ar y cyfan. Mae'n amlwg y bydd y strategaeth genedlaethol yn chwarae rhan allweddol o ran pennu fframwaith mwy manwl ar gyfer cyflawni'r Bil. Galwodd rhai rhanddeiliaid am fwy o fanylion ynghylch yr hyn y mae'r strategaeth yn debygol o'i gynnwys ac felly beth y bydd yn ei olygu iddyn nhw. Fodd bynnag, mae tyndra rhwng galwadau am fwy o fanylion ynghylch yr hyn y mae'r strategaeth yn debygol o'i gynnwys (ac felly'r hyn y bydd yn ei olygu i randdeiliaid) a'r angen i ganiatáu amser i ymgysylltu ag arwyddwyr IAP Byddar a phartïon eraill sydd â diddordeb. Nid yw'n glir inni bod modd lliniaru'r tyndra hwn yn hawdd.

**82.** Serch hynny, mae'n hanfodol bod y strategaeth yn rhoi eglurder i gyrff cyhoeddus, arwyddwyr IAP a'r cyhoedd yn ehangach ynghylch yr hyn y mae'n ceisio'i gyflawni. Dylai hyn fod ar ffurf targedau clir, mesuradwy ac amserol ac rydym yn croesawu'r ffaith bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi cydnabod yr angen am y rhain yn ei thystiolaeth.

**Casgliad 2.** Er mwyn sicrhau newid ystyrlon, dylai'r strategaeth IAP genedlaethol gynnwys targedau clir, mesuradwy ac amserol. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth nesaf Cymru yn sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y strategaeth IAP ddrafft a gyhoeddir y cynhelir ymgynghoriad arni os daw'r Bil yn gyfraith.

### Canllawiau IAP

**83.** Mae'r gofyniad yn adran 3 i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau yn hanfodol i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cymhwyso'r ddeddfwriaeth yn gyson. Nododd cyrff cyhoeddus y byddant yn ei chael hi'n anodd cyflawni amcanion y Bil heb ganllawiau cynhwysfawr.

**84.** O ystyried y berthynas hollbwysig rhwng y strategaeth IAP a'r canllawiau, roedd galwadau i'r olaf gael eu cyhoeddi mewn modd amserol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried yr effaith negyddol y dywedir i'r oedi cyn cyhoeddi canllawiau o dan Ddeddf Iaith Arwyddion Prydain 2022 ei chael ar ansawdd cynlluniau ar gyfer adrannau Llywodraeth y DU. Mae ymateb Syr Stephen Timms ar ran Llywodraeth y DU, sy'n dangos y potensial am oedi pellach i'r canllawiau, wedi atgyfnerthu'r gred bod angen amserlenni penodol i sicrhau prydlondeb.

**85.** Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus rhestredig gyhoeddi cynllun IAP sy'n disgrifio sut y byddant yn dilyn y canllawiau (neu pam nad ydynt yn bwriadu gwneud hynny) o fewn 12 mis i gyhoeddi'r strategaeth genedlaethol. Felly, rydym yn credu ei bod yn deg ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau o fewn amserlen a fydd yn rhoi digon o amser i gyrff cyhoeddus gyflawni'r gofynion hyn.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell y dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r canllawiau IAP o fewn yr un amserlenni neu amserlenni tebyg i'r rhai a bennir ar gyfer y strategaeth IAP genedlaethol. Rydym o'r farn, oni bai bod dadl gref o blaid amserlen wahanol, y dylai 18 mis ar ôl i'r Bil gael ei ddeddfu fod yn ddigonol ac yn briodol.

**Y gofynion ymgynghori**

**86.** Ar hyn o bryd mae'r ddeddfwriaeth yn gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ar y strategaeth IAP ond nid yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth ynghylch ymgynghori ar y canllawiau. Ymddengys i ni fod hyn yn anghysondeb y mae angen mynd i'r afael ag ef.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell y dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar gynnwys y canllawiau IAP cyn eu cyhoeddi.

# 4. Cynlluniau IAP a chyrff cyhoeddus rhestredig

Mae'r bennod hon yn edrych ar y gofynion a osodir ar gyrff cyhoeddus rhestredig yn adrannau 4, 6 ac 8 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd.

## Cynlluniau IAP

**87.** Byddai'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus rhestredig baratoi a chyhoeddi cynllun IAP o fewn 12 mis i gyhoeddi strategaeth Iaith Arwyddion Prydain genedlaethol, ac adrodd ar ei gweithrediad ar ôl 12 mis pellach. Mae'r darpariaethau hyn wedi'u nodi yn adrannau 4 a 6.

**88.** Wrth benderfynu ar gynnwys y cynlluniau hyn, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi "rhaid i bob un o'r cyrff cyhoeddus rhestredig benderfynu ar gynnwys ei gynllun IAP ei hun" gan y bydd gan bob corff cyhoeddus "y ddealltwriaeth fwyaf o'u hanghenion eu hunain".[60]

**89.** Roedd y rhan fwyaf o'r cyflwyniadau a dderbyniwyd gennym, gan gynnwys gan unigolion fel Dr Julia Terry ac Aled Thomas, a sefydliadau fel Coleg Brenhinol y Seiciatryddion Cymru, awdurdodau lleol, a byrddau iechyd lleol, yn cefnogi'r gofynion i gynhyrchu cynlluniau IAP.[61]

**90.** Er eu bod yn croesawu'r gofynion, roedd llawer o awdurdodau lleol, gan gynnwys CBS Caerffili, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Fynwy a CBS Wrecsam, yn pryderu am y straen posibl ar wasanaethau sydd eisoes dan bwysau, gan dynnu sylw at y ffaith nad oes gan lawer o gyrff cyhoeddus y capasiti na'r arbenigedd i gyflawni'r dyletswyddau hyn heb gael cryn gefnogaeth.[62]

**91.** Dadleuodd y Cynghorydd Ash Lister o CLlLC y dylai Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd ar sut olwg ddylai fod ar weithio'n rhanbarthol, a dywedodd y gallai cydweithio greu heriau gwirioneddol heb eglurder o'r canol.[63]

[60] Memorandwm Esboniadol, paragraff 253
[61] BSL 11 Aled Thomas, BSL 15 Dr Julia Terry, BSL 17 CBS Wrecsam, BSL 13 Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, BSL 03 BIP Hywel Dda, BSL 25 BIP Cwm Taf Morgannwg
[62] BSL 07 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, BSL 04 Cyngor Sir Caerfyrddin, BSL 19 Cyngor Sir Fynwy, BSL 17 CBS Wrecsam
[63] Cofnod y Trafodion, paragraff 105, 13 Hydref 2025

**92.** Dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil wrthym y gallai gweithio'n rhanbarthol arwain at fanteision drwy rannu adnoddau wrth baratoi cynlluniau a chydgyflawni rhai camau gweithredu. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod y gallai fod gan rai cyrff cyhoeddus reswm da dros gadw rhai elfennau ar lefel leol, oherwydd bod y boblogaeth ag anghenion eisoes yn bodoli ac oherwydd bod y màs critigol o wasanaethau eisoes yno.

## Adrodd ar weithredu cynlluniau IAP

**93.** Mae Adran 6 yn nodi bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus rhestredig gyflwyno adroddiadau i Weinidogion Cymru ar y cynnydd o ran gweithredu eu cynlluniau 12 mis ar ôl eu cyhoeddi neu ar ôl gwneud unrhyw ddiwygiadau i'w cynlluniau.

**94.** Roedd barn gref gan gynrychiolwyr cyrff cyhoeddus y dylid lleihau beichiau gweinyddol newydd gymaint â phosibl ac awgrymodd llawer y dylai dyletswyddau adrodd newydd gyd-fynd â gofynion adrodd presennol fel y rhai sy'n ofynnol gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a/neu Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.[64]

**95.** Mynegodd rhai cyrff cyhoeddus bryder ynghylch dyblygu adroddiadau a beichiau biwrocrataidd newydd.[65] Dywedodd Kathryn Cobley o Wasanaeth Ambiwlans Cymru fod risg y byddai proses adrodd fiwrocrataidd ar wahân *yn drech nag egwyddorion* cynllun gweithredu a bod perygl y bydd dulliau gweithredu amrywiol ar gyfer ymdrin â gwahanol nodweddion gwarchodedig yn tanseilio'r dull cydgysylltiedig o wella cydraddoldeb a thegwch yn gyffredinol.[66]

**96.** Dadleuodd ASCL Cymru na ddylai gofynion adrodd gynyddu'r llwyth gwaith na rhoi baich gweinyddol ychwanegol diangen ar ysgolion a cholegau gan ychwanegu y dylid symleiddio'r broses casglu data â systemau presennol lle bynnag y bo modd.[67]

**97.** Argymhellodd CLlLC y dylid defnyddio'r gofynion adrodd blynyddol presennol ar gydraddoldeb o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i adrodd ar gynnydd. Awgrymodd y byddai gofynion adrodd anfynych yn arwain at awdurdodau lleol yn cael ceisiadau ad hoc am ddata a gwybodaeth.[68]

---

[64] BSL 25 BIP Cwm Taf Morgannwg, BSL 27 Cyngor Dinas Casnewydd, BSL 21 CLlLC
[65] BSL 25 BIP Cwm Taf Morgannwg
[66] Cofnod y Trafodion, paragraff 267, 6 Hydref 2025
[67] BSL 05 ASCL Cymru
[68] BSL 21 CLlLC

**98.** Roedd RNID Cymru yn cefnogi cysoni trefniadau adrodd wedi'u symleiddio fel y gellir dyrannu cyllid ac adnoddau mewn ffordd sy'n cael yr effaith uniongyrchol fwyaf ar ddefnyddwyr IAP.[69]

**99.** Nid oedd Dr Rob Wilks yn gwrthwynebu cysoni cylchoedd adrodd ond dywedodd ei bod yn bwysig nad oedd y dyletswyddau'n cael eu gwanhau.[70]

**100.** O ran cysoni â dyletswyddau adrodd eraill, roedd yr Aelod sy'n Gyfrifol am Bil yn glir y byddai cysoni â dyletswyddau adrodd eraill yn tanseilio ffocws y Bil ar lefel sylfaenol:

> *"If this was subsumed, then the focus would be at risk of being lost. The Equalities Act 2010 and the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 and otherwise have varying reporting duties, but they're general; they don't apply to BSL. This is a BSL language Act. It's not an equalities Act, it's not a rights Act—it's a language Act, with a very specific focus."*[71]

**101.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym y byddai'r trefniadau adrodd yn chwarae rhan bwysig o ran galluogi gwaith craffu ac osgoi loteri cod post.[72] Cadarnhaodd hefyd y bydd y canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru yn ymdrin â ffyrdd o weithio i gefnogi gwaith cynllunio, adrodd a chyflawni cost-effeithiol, yn ogystal ag edrych ar ffyrdd y gall cyrff cyhoeddus gyhoeddi eu hadroddiadau eu hunain yn effeithiol fel rhan o gylchoedd adrodd presennol.[73]

## Ychwanegu at nifer y cyrff cyhoeddus rhestredig

**102.** Mae'r hyn a olygir gan gyrff cyhoeddus rhestredig at ddibenion y Ddeddf wedi'i nodi yn adran 8. Mae'r diffiniad yn y Bil fel y'i cyflwynwyd yn cynnwys pob cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol, pob bwrdd iechyd lleol, tair ymddiriedolaeth y GIG a dau awdurdod iechyd arbennig. Mae adran 8(2) yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ychwanegu neu ddileu awdurdodau datganoledig oddi ar y rhestr o gyrff cyhoeddus rhestredig.

**103.** Galwodd yr NDCS, ASLI, RNID Cymru, y BDA ac eraill am ehangu nifer y cyrff cyhoeddus rhestredig. Estyn a Chymwysterau Cymru oedd y rhai a grybwyllwyd

[69] BSL 24 RNID Cymru
[70] Cofnod y Trafodion, paragraff 214, 29 Medi 2025
[71] Cofnod y Trafodion, paragraff 98, 20 Hydref 2025
[72] Cofnod y Trafodion, paragraff 224, 13 Hydref 2025
[73] Cofnod y Trafodion, paragraff 209, 13 Hydref 2025

amlaf fel rhai i'w cynnwys ar y rhestr, fodd bynnag, soniwyd hefyd am y Comisiwn Addysg Drydyddol, Medr, prifysgolion a Thrafnidiaeth Cymru.[74]

**104.** Er bod y BDA yn awyddus i weld darpariaeth o fewn y sector addysg yn cael blaenoriaeth, cydnabu Tom Lichy y gallai fod yn well dechrau gyda nifer llai o gynlluniau o ansawdd uwch a dysgu a thyfu o hynny.[75]

**105.** Dywedodd y Comisiynydd Plant fod y cyrff cyhoeddus rhestredig presennol yn fan cychwyn pragmataidd o ystyried eu cyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau iechyd ac addysg.

**106.** Dywedodd WCDP fod diffyg darpariaeth gofal a chymorth ar gael i bobl fyddar ac awgrymodd y dylid cynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru yn y rhestr.

**107.** Dadleuodd Dr Rob Wilks dros ychwanegu nifer sylweddol o gyrff cyhoeddus datganoledig gan gynnwys gwasanaethau tân ac achub, sefydliadau addysg uwch, comisiynwyr statudol Cymru; Comisiwn y Senedd, a Chyfoeth Naturiol Cymru.[76]

**108.** Nid oedd yr un o'r cyfranwyr yn ein grwpiau ffocws yn fodlon ar y rhestr gyfredol o gyrff cyhoeddus yn y Bil. Yn ôl y crynodeb:

> *"Roedd barn gref bod y rhestr yn rhy gyfyngedig ac y dylid ei ehangu i gynnwys sefydliadau a rhanddeiliaid allweddol eraill […] Roedd rhai yn cydnabod efallai na fyddai'n bosibl ehangu'r rhestr unwaith, ond dywedwyd y dylai barhau i fod yn uchelgais glir ar gyfer y dyfodol."*[77]

**109.** Tynnodd Anabledd Cymru, ASLI, y BDA ac eraill sylw at anawsterau o ran cael mynediad at drafnidiaeth fel maes arall lle mae arwyddwyr IAP Byddar yn wynebu rhwystrau gan alw am roi blaenoriaeth i ychwanegu Trafnidiaeth Cymru at y rhestr.[78]

**110.** Dywedodd Mark Isherwood AS fod y Bil yn canolbwyntio ar gyrff sydd â chyfrifoldeb dros iechyd ac addysg fel man cychwyn, oherwydd y swm sylweddol

[74] BSL 26 NDCSC, BSL 08 ASLI, BSL 09 Dr Rob Wilks, Prifysgol Gorllewin Lloegr (UWE), BSL 23 BDA
[75] Cofnod y Trafodion, paragraffau 160 - 161, 22 Hydref 2025
[76] BSL 09 Rob Wilks, Prifysgol Gorllewin Lloegr
[77] Bil IAP: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu
[78] BSL 02 Anabledd Cymru, BSL 08 ASLI, BSL 23 BDA

iawn o dystiolaeth[79] sy'n ymwneud â'r meysydd hyn. Nododd y gallai Trafnidiaeth Cymru ac Estyn fod yn gyrff cyhoeddus eraill i ystyried eu cynnwys.

**111.** Ychwanegodd yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil, er mai mater i Weinidogion Cymru fydd arfer y pŵer i ddiwygio'r rhestr o gyrff cyhoeddus sydd wedi'u rhestru yn y Bil, y bydd angen i'r Senedd gymeradwyo'r rheoliadau ac y gallai'r Senedd "weithio'n rhagweithiol gyda Gweinidogion Cymru i geisio gwneud newidiadau priodol i'r rhestr" er enghraifft drwy argymhellion gan bwyllgorau a mathau eraill o fusnes y Senedd.[80]

## Barn y Pwyllgor

### Cynlluniau IAP

**112.** Drwy gydol y broses hon, mae'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil ac Ysgrifennydd y Cabinet wedi pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu ag arwyddwyr IAP Byddar ynghylch cynnwys y strategaeth, y canllawiau a chynlluniau IAP lleol. Nodwn fod sawl corff cyhoeddus, yn enwedig awdurdodau lleol, wedi mynegi pryderon ynghylch eu gallu i ymgymryd â'r gwaith hwn oherwydd diffyg arbenigedd a'i fod yn ychwanegu at y gofynion eraill ar wasanaethau.

**113.** Mae'n amlwg bod cyfle i rai cyrff cyhoeddus weithio ar draws ffiniau a mabwysiadu dull mwy cydweithredol neu ranbarthol o ddatblygu cynlluniau lleol. Mae'n debygol y byddai hyn yn fwy effeithlon ac effeithiol na llu o ddulliau gweithredu gwahanol. Fodd bynnag, o ystyried cymhlethdod y maes gweinyddol, nid yw'n gwbl glir a fyddai cydweithio ar gynlluniau lleol yn cyd-fynd yn naturiol ag unrhyw un o'r strwythurau neu'r patrymau presennol. Felly, rydym yn adleisio'r galwadau gan randdeiliaid am fwy o eglurder gan Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch sut y byddai Llywodraeth Cymru yn rhagweld y byddai hyn yn gweithio'n ymarferol.

**Argymhelliad 5.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu:

- sut y mae'n disgwyl i gyrff cyhoeddus rhestredig gydweithio ar draws ffiniau gweinyddol wrth baratoi cynlluniau lleol;

[79] Cofnod y Trafodion, paragraff 49, 15 Medi 2025
[80] Gohebiaeth PTN 3.1 gan Mark Isherwood AS at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 8 Hydref 2025

- sut y bydd yn meithrin gallu cyrff cyhoeddus rhestredig fel bod ganddynt y gefnogaeth a'r arbenigedd cywir i baratoi a gweithredu cynlluniau lleol yn effeithiol;
- cadarnhau bod gan y Tîm Gweithredu ar gyfer y Bil adnoddau sydd wedi'u neilltuo i gyflawni'r argymhelliad hwn.

Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau y bydd hyn ar waith cyn dadl Cyfnod 1 sydd wedi'i threfnu ar gyfer 17 Rhagfyr 2025.

### Y gofynion adrodd

**114.** Mae'r Bil yn rhagweld gosod gofynion adrodd newydd ar gyrff cyhoeddus rhestredig mewn perthynas â gweithredu eu cynlluniau IAP. Awgrymwyd gan rai y gallai cysoni'r rhain â gofynion adrodd presennol sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb arwain at fanteision ymarferol a gweinyddol. Er y gall y ddadl hon ymddangos yn synhwyrol, ar yr wyneb o leiaf, rydym wedi dod i'r casgliad y gallai gwneud hynny fod yn niweidiol i amcanion y Bil ar lefel sylfaenol. Byddai uno'r gofynion adrodd â dyletswyddau adrodd presennol o dan, er enghraifft, Deddf Cydraddoldeb 2010 neu Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn lleihau prif ffocws y Bil ac o bosibl yn tanseilio mecanwaith allweddol ar gyfer dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif.

**115.** Er ein bod yn gwerthfawrogi'r llwyth gwaith sylweddol y mae cyrff cyhoeddus yn ei wynebu ac yn cymeradwyo'n gyffredinol fesurau sy'n gwella effeithlonrwydd gweinyddol, nid ydym yn credu ei bod yn werth peryglu un o brif amcanion y Bil drwy fynd ar drywydd y nod hwn. Yn hytrach, dylai cyrff cyhoeddus ymchwilio i ffyrdd gwell o sicrhau bod y trefniadau adrodd yn cael eu gweithredu'n effeithlon a pha rai sy'n debygol o fod fwyaf manteisiol: er enghraifft drwy gydweithredu a chydweithio ar lefel ranbarthol.

### Ychwanegu cyrff cyhoeddus at y Bil

**116.** Fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol, rhoddir blaenoriaeth i iechyd ac addysg (ar ffurf awdurdodau lleol a chyrff iechyd) yn y Bil i ddechrau gan mai dyma lle mae'r angen mwyaf dybryd, yn ôl yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Rydym yn derbyn y ddadl hon ac yn cytuno bod dyfnder ac ansawdd yn debygol o fod yn bwysicach na lled o leiaf nes bod y Ddeddf wedi cael amser i ymwreiddio'n iawn. Ar yr un pryd, rydym yn cydnabod bod rhai wedi galw am gynnwys cyrff cyhoeddus ychwanegol yn y rhestr gan gynnwys, yn fwyaf nodedig, y rhai sy'n gweithio yn y sector addysg fel Estyn, Cymwysterau Cymru, a Medr. O ystyried bod y cyfrifoldeb am wella ysgolion a'u rheoli o ddydd i ddydd yn nwylo'r awdurdodau

lleol, fodd bynnag, rydym yn cytuno â ffocws arfaethedig y Bil ar awdurdodau lleol yn y lle cyntaf. Yn yr un modd, tynnodd arwyddwyr IAP sylw at anawsterau gyda defnyddio rhwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus. Felly, byddem yn dymuno gweld y sector trafnidiaeth yn cael ei flaenoriaethu, lle bo modd, i'w gynnwys ar y rhestr yn y dyfodol ac i Lywodraeth Cymru ymchwilio i ddichonoldeb dod â darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus o fewn cwmpas y Bil.

**Argymhelliad 6.** Nodwn, o dan adran 7(2), y rhagwelir y bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru gynhyrchu adroddiadau cynnydd ym mhob cyfnod o 3 blynedd ar ôl i'r strategaeth genedlaethol gael ei chyhoeddi. Rydym yn argymell bod yr adroddiadau cynnydd cynnar sy'n ofynnol gan y Bil, pe bai'n dod yn gyfraith, yn cynnwys ystyried a ddylid ychwanegu cyrff cyhoeddus eraill at y Bil.

# 5. Cynghorydd IAP a Phanel Cynorthwyo

Os caiff ei basio, bydd Gweinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus rhestredig yn elwa o gyngor ac arweiniad gan y Cynghorydd IAP newydd a'r Panel Cynorthwyo.

**117.** Mae Adran 5 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i benodi Cynghorydd IAP i roi cyngor a gwybodaeth i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'u swyddogaethau o dan y Ddeddf a, gyda chytundeb Gweinidogion Cymru, rhoi cyngor yn fwy cyffredinol i gyrff cyhoeddus rhestredig ar hybu a hwyluso IAP.

**118.** Gwneir darpariaethau pellach ynghylch y penodiad yn Atodlen 1 i'r Bil. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau y "bydd y cynghorydd ac aelodau'r panel yn cael eu penodi gan Weinidogion Cymru…drwy'r broses penodiadau cyhoeddus ffurfiol" ac y "byddant wedyn yn dal y swydd yn unol â'r telerau a bennir gan y Gweinidogion drwy'r broses benodi honno."[81]

**119.** Er gwaethaf cefnogaeth gref iawn gan randdeiliaid i benodi Cynghorydd IAP, gan gynnwys RNID Cymru, y BDA, awdurdodau lleol, cyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws ac eraill, roedd gwahaniaeth barn ynghylch rhai agweddau ar y rôl a'r broses benodi ehangach.[82]

## Penodi cynghorydd IAP

**120.** Mae Adran 5(2) o'r Bil yn nodi, wrth benodi Cynghorydd IAP Prydain, bod yn rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni bod y person a benodir yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yn IAP ac yn defnyddio'r iaith.

**121.** Esboniodd Tom Lichy o'r BDA fod hyn, yn ei farn ef, yn golygu y byddai angen i'r Cynghorydd fod yn rhugl, ac mae rhugl yn golygu gallu mynychu cyfarfod proffesiynol ar lefel uchel a chynnal y cyfarfod hwnnw yn IAP. Ychwanegodd:

> *"Many deaf people aren't actually given the opportunity to learn BSL at home or school. A lot of deaf people learn BSL later in life, so I don't*

[81] Memorandwm Esboniadol, paragraff 186
[82] Bil IAP: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu

> *want to block or exclude them from being involved. We want to be as inclusive as possible."*

**122.** Roedd RNID Cymru, yr NDCS, y BDA, Cyngor Dinas Casnewydd, Prifysgol Caeredin ac eraill yn hapus â'r gofyniad hwn yn gyffredinol.[83] Fodd bynnag, roedd rhai tystion o'r farn y dylai'r Cynghorydd IAP fod yn arwyddwr IAP Byddar yn ddelfrydol.

**123.** Dywedodd Michelle Fowler o BIP Felindre ei bod yn gryf o blaid sicrhau bod y sawl a benodir yn arwyddwr IAP byddar:

> *"If you have a hearing person who's learnt British Sign Language, their experience and lived experience of living in a hearing world is going to be completely different."*[84]

**124.** Dadleuodd Sarah Thomas o'r Ganolfan Arwyddo, Golwg a Sain nad yw'n dderbyniol i ddefnyddiwr IAP nad yw'n fyddar gynrychioli cymuned IAP fyddar Cymru.[85]

**125.** Awgrymodd Dr Kate Attfield y gallai penodi person sy'n clywed i'r swydd fod yn niweidiol gan y byddai o bosibl yn teimlo fel pe bai'r hen genhadon dros bobl fyddar yn cael eu hatgyfodi.[86]

**126.** Roedd mwyafrif y rhai a gyfrannodd at ein grwpiau ffocws fel rhan o'n gwaith ymgysylltu yn cytuno y dylai'r Cynghorydd fod yn rhugl mewn IAP, gyda llawer yn nodi y dylai fod yn berson byddar yn ddelfrydol, neu o leiaf, fod â chysylltiadau cryf â'r diwylliant Byddar a phrofiad byw ohono, fel plentyn oedolion byddar.[87]

**127.** Ailbwysleisiodd yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil fod yn rhaid i'r Cynghorydd IAP fod yn arwyddwr IAP. Ychwanegodd ei fod yn gobeithio ac yn rhagweld y byddai gan y sawl a benodir gysylltiad rheolaidd â'r gymuned Fyddar, ac y byddai, gobeithio ac yn fwriadol, yn rhan o'r gymuned Fyddar.[88]

---

[83] BSL 24 RNID Cymru, Cofnod y Trafodion, paragraff 91, 29 Medi 2025, BSL 27 Cyngor Dinas Casnewydd, BSL 24 Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain, BSL 28 Prifysgol Caeredin
[84] Cofnod y Trafodion, paragraff 135, 6 Hydref 2025
[85] Cofnod y Trafodion, paragraff 90, 22 Medi 2025
[86] Cofnod y Trafodion, paragraff 221, 29 Medi 2025
[87] Bil IAP: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu
[88] Cofnod y Trafodion, paragraff 60, 15 Medi 2025

**128.** Pan ofynnwyd iddo am oblygiadau cyfreithiol ei gwneud yn ofyniad i'r Cynghorydd fod yn arwyddwr IAP Byddar, ymrwymodd Ysgrifennydd y Cabinet i ysgrifennu atom gyda barn fanylach. Fodd bynnag, ychydig iawn o fanylion a ddarparwyd yn yr ohebiaeth a dderbyniwyd a nododd:

> *"[...] nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu datgelu cyngor cyfreithiol. Serch hynny, i gynorthwyo'r pwyllgor, ymddengys nad oes unrhyw rwystr i'r Bil ei gwneud yn ofynnol i'r cynghorydd BSL fod yn fyddar. Tynnir sylw'r pwyllgor, yn benodol, at adran 13(3) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a pharagraff 2 o Atodlen 3 iddi. O ran cymhwysedd deddfwriaethol, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai gofyniad bod y cynghorydd BSL yn fyddar o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd am yr un rhesymau ag y byddai darpariaethau eraill y Bil."*[89]

**129.** Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet ei barn ar ôl i'r Pwyllgor orffen casglu ei dystiolaeth ar gyfer y Bil ac o ganlyniad nid oedd y Pwyllgor yn gallu trafod hynny'n fanylach gyda'r rhanddeiliaid.

**130.** Fodd bynnag, ystyriodd y Pwyllgor y cysylltiadau â Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r goblygiadau i gymhwysedd deddfwriaethol. Mae'r Pwyllgor wedi ffurfio barn wahanol, a nodir ar ddiwedd y bennod hon.

## Rôl y Cynghorydd IAP

**131.** Roedd llawer o randdeiliaid eisiau sicrwydd ynghylch ffiniau'r rôl a'r gallu i weithredu'n annibynnol a sicrhau newid. Ychydig iawn o fanylion sydd yn y Bil ar union natur y rôl y tu hwnt i'r rhai a nodir yn adrannau 5(2) i 5(7) ac ym mharagraffau 179 i 187 o'r Memorandwm Esboniadol. Yn ôl y darpariaethau yn Atodlen 1 i'r Bil, bydd y Cynghorydd yn dal y swydd yn unol â'r telerau a bennir gan y Gweinidogion drwy broses benodi ffurfiol.

**132.** Roedd yr NDCS yn glir y byddai'n hoffi gweld y Cynghorydd IAP yn gweithredu fel cyfaill beirniadol i Lywodraeth Cymru ac awgrymodd y byddai gwaith craffu cyn penodi gan y Senedd yn helpu i wella hyn.[90]

[89] PTN. 3.4 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet at y Pwyllgor: gwybodaeth ddilynol yn ymwneud â Bil IAP (Cymru), 23 Hydref 2025
[90] BSL 26 NDCS

**133.** Dywedodd Cyngor Sir Dinbych y bydd effeithiolrwydd y Cynghorydd IAP yn dibynnu ar ei adnoddau a lefel ei awdurdod:

> *"If the role is too limited or advisory-only, it may lack the power to drive real change".*[91]

**134.** Roedd RNID Cymru, CBS Merthyr, Undeb Cenedlaethol Dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain, NRCDP ac eraill eisiau gweld mwy o eglurder ynghylch union natur y rôl a beth fydd lefel yr adnoddau sydd ar gael i bwy bynnag a benodir.[92]

**135.** Roedd Dr Rob Wilks yn cytuno a dywedodd ei bod yn bwysig bod gan y Cynghorydd IAP ddigon o adnoddau yn hytrach na swm symbolaidd o arian. Fe wnaeth ef, David Reader ac NDCS gymharu rôl y Cynghorydd IAP â rôl Comisiynydd y Gymraeg gan ddadlau y dylent gael yr un statws.[93]

**136.** Mynegodd y BDA ei gobaith y bydd y Cynghorydd yn meddu ar brofiad personol uniongyrchol o gymuned arwyddo byddar Cymru a'i diwylliant.[94]

**137.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym y dylid ystyried craffu ar y rôl cyn penodi a'i bod yn teimlo bod hyn yn bwysig o ran annibyniaeth y rôl a chraffu ar y penodiad hwnnw.[95]

## Panel Cynorthwyo

**138.** Mae'r Bil yn gwneud darpariaethau ar gyfer penodi Panel Cynorthwyo ac yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru benodi aelodau ar ôl ymgynghori â'r Cynghorydd IAP. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, pwrpas y panel fydd rhoi cyngor a chanllawiau polisi i'r Cynghorydd ac i wasanaethau cyhoeddus Cymru ar sut i ymgysylltu ag arwyddwyr IAP yng Nghymru a sicrhau eu bod yn rhan o'r gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau.[96]

**139.** Pwysleisiodd y BDA, Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, Dr Rob Wilks, y Comisiynydd Plant, yr angen i aelodau'r panel ddod â phrofiad bywyd i'r rôl ac roeddent yn eirioli dros gydgynhyrchu.[97]

[91] BSL 18 Cyngor Sir Dinbych
[92] BSL 24 RNID Cymru, BSL Merthyr CBS
[93] Cofnod y Trafodion, paragraff 233, 29 Medi 2025
[94] BSL 23 BDA
[95] Cofnod y Trafodion, paragraff 242, 13 Hydref 2025
[96] Memorandwm Esboniadol, paragraff 236
[97] BSL 23 Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain, BSL 31 Coleg Brenhinol y Seiciatryddion.

**140.** Dywedodd y BDA wrthym, er mwyn gweithredu'n effeithiol, ei bod yn bwysig bod aelaodau'r panel i gyd yn arwyddwyr IAP. Awgrymodd Charles Hampton o WCDP y dylai gynnwys aelodau sydd â chysylltiad rheolaidd â grwpiau cymunedol ar lawr gwlad.[98]

**141.** Dywedodd RNID Cymru y gallai'r panel gynnwys is-grwpiau â gwybodaeth arbenigol i ymchwilio i rai meysydd a chydweithio â chyrff cyhoeddus penodol. Dywedodd Dr Kate Attfield y dylai'r panel gynnwys pobl sydd ag arbenigedd yn ymwneud â chyrff cyhoeddus rhestredig.[99] Awgrymodd Jamie Martin o NDCS y dylai dehonglwyr gael eu cynrychioli hefyd.[100]

**142.** Roedd y Comisiynydd Plant eisiau gweld mecanweithiau cryfach ar gyfer clywed gan blant a phobl ifanc byddar. Awgrymodd Rocio Cifuentes y dylid ystyried sefydlu panel penodol ar gyfer plant a phobl ifanc.[101] Yn yr un modd, galwodd yr NDCS am gynrychiolaeth o rieni plant byddar ar y panel cynorthwyo.[102]

**143.** Dywedodd Mark Isherwood AS nad oedd natur statudol y panel i'w chael yn unman arall yn y DU a chadarnhaodd y byddai'r panel yn cynnwys pobl sydd eu hunain yn aelodau o'r gymuned fyddar a/neu mewn cysylltiad uniongyrchol ag aelodau o'r gymuned fyddar.[103]

**144.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym y byddai'r panel cynorthwyo yn helpu i gynrychioli natur groestoriadol y gymuned fyddar.[104]

## Barn y Pwyllgor

### Penodi cynghorydd IAP

**145.** Mae'r cynnig i greu Cynghorydd IAP a Phanel Cynorthwyo yn gosod y Bil hwn ar wahân i ddeddfwriaeth debyg mewn rhannau eraill o'r DU.

**146.** O ran penodi Cynghorydd IAP, fel y'i drafftiwyd, byddai'n ofyniad cyfreithiol i bwy bynnag a benodir allu "cyfathrebu'n effeithiol" yn IAP a defnyddio'r iaith. Yn ogystal â'r gofyniad hwn, roedd llawer yn teimlo'n gryf y dylai pwy bynnag a benodir i'r rôl fod yn berson byddar ei hun gyda phrofiad bywyd o fod yn fyddar. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod cryfder y teimladau ar hyn ac yn dymuno datgan yn

[98] Cofnod y Trafodion, paragraff 250, 22 Medi 2025
[99] Cofnod y Trafodion, paragraff 237, 29 Medi 2025
[100] Cofnod y Trafodion, paragraff 117, 29 Medi 2025
[101] Cofnod y Trafodion, paragraffau 30 - 33, 29 Medi 2025
[102] Cofnod y Trafodion, paragraff 43, 29 Medi 2025
[103] Cofnod y Trafodion, paragraffau 60 - 61, 15 Medi 2025
[104] Cofnod y Trafodion, paragraff 142, 13 Hydref 2025

ddiamwys mai ein gobaith a'n disgwyliad yw y bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei harwain gan arwyddwyr IAP byddar eu hunain. Yn y pen draw, bydd angen i'r sawl a benodir ennyn ymddiriedaeth a hyder arwyddwyr IAP ledled Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru wneud pob ymdrech i hyrwyddo'r rôl i ddarpar ymgeiswyr sydd â phrofiad personol o fod yn berson byddar.

**147.** Serch hynny, mae gennym gryn dipyn o bryderon ynghylch risgiau a goblygiadau posibl cynnwys gofyniad cyfreithiol ffurfiol y dylai'r Cynghorydd IAP fod yn berson byddar ar wyneb y Bil. Effaith dull o'r fath fyddai eithrio ymgeiswyr nad ydynt yn fyddar ond a allai fod â'r gallu i gyflawni'r rôl i'r safon angenrheidiol. Felly, rydym yn credu ei bod yn anodd dod i gasgliad cadarn y byddai gofyniad o'r fath yn gydnaws â chyfraith gwahaniaethu ac y gallai fod yn agored i her gyfreithiol. Gallai darpariaeth o'r fath hefyd fod y tu hwnt i gymhwysedd y Senedd a allai ohirio neu danseilio'r Bil yn ei gyfanrwydd. Nid yw'n anghyffredin cael gwahaniaeth barn gyfreithiol ar y materion hyn a nodwn fod Ysgrifennydd y Cabinet wedi mynegi barn wahanol. Nodwn ymhellach fod yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil yn fodlon â geiriad presennol y Bil. Yn y pen draw, dim ond y llysoedd sydd â'r pŵer i roi ateb pendant ynghylch y materion hyn.

**148.** Ein gwaith ni yw gwneud penderfyniad yn seiliedig ar y cyngor a'r dystiolaeth yr ydym wedi'u clywed. Ar hyn o bryd, rydym yn fodlon bod y Bil o fewn cymhwysedd y Senedd. Ni fyddem am weld hyn yn cael ei beryglu, yn enwedig pan ddylai fod yn bosibl annog ceisiadau gan ymgeiswyr byddar fel rhan o'r broses benodi.

**Casgliad 3.** Mae mwyafrif aelodau'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad na ellir ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol i'r Cynghorydd IAP fod yn berson byddar heb y risg o wynebu her gyfreithiol a allai danseilio'r Bil yn ei gyfanrwydd. Mae mwyafrif y Pwyllgor o'r farn bod hon yn lefel annerbyniol o risg. Roedd dau Aelod yn anghytuno â'r casgliad hwn. Roeddent o'r farn bod y risgiau hyn yn cael eu gorbwyso gan y gefnogaeth gref a fynegwyd gan y rhan fwyaf o unigolion a roddodd dystiolaeth o blaid ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol bod y Cynghorydd IAP yn fyddar.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil yn ystyried sut y gall y broses benodi sicrhau bod anghenion y gymuned Fyddar yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yn y broses benodi ar gyfer y Cynghorydd IAP. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion ynghylch hyn mewn ymateb i'r adroddiad hwn, yr ydym yn ei ddisgwyl mewn pryd ar gyfer dadl Cyfnod 1 a gynhelir ar 17 Rhagfyr 2025.

### Rôl y Cynghorydd IAP

**149.** Rydym yn cefnogi'r cynigion i benodi Cynghorydd IAP y byddwn yn disgwyl iddo fod yn rhan ganolog o'r llywodraeth yn darparu gwybodaeth, mewnwelediad ac arbenigedd gwerthfawr i Weinidogion Cymru ar faterion yn ymwneud â hybu a hwyluso IAP.

**150.** Yn amlwg, mae rôl y Comisiynydd yn fwy cyfyngedig na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol: felly mae'n hanfodol bod trefniadau cadarn ar waith i alluogi'r Cynghorydd i roi cyngor mewn modd diduedd. Bydd angen neilltuo adnoddau priodol ar gyfer ei swyddfa hefyd.

**151.** Rydym yn croesawu'r ffaith bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi nodi ei barn y byddai'r rôl yn destun proses graffu cyn penodi ac yn credu y byddai hyn yn cryfhau annibyniaeth y rôl. Fodd bynnag, nodwn mai mater i'r Senedd nesaf a Llywodraeth nesaf Cymru gytuno arno fydd hwn. Rydym yn eu hannog i barhau i anrhydeddu'r arfer o graffu cyn penodi sydd wedi cael ei gryfhau yn ystod tymor y Senedd hon.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell y dylai rôl y Cynghorydd IAP gael ei chydnabod fel penodiad cyhoeddus sy'n gymwys i fod yn destun proses graffu cyn penodi a bod y pwyllgor priodol yn y Senedd nesaf yn cael cynnig y cyfle i gynnal gwrandawiad cyn penodi gyda'r ymgeisydd a ffefrir. Rydym yn cytuno y gellir cyflawni'r newid hwn yn anffurfiol drwy gytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a'r Senedd ac y dylid gwneud hynny nawr er mwyn rhoi arwydd cadarn o fwriad i lywodraeth nesaf Cymru a'r Senedd nesaf.

### Y Panel Cynorthwyo

**152.** Rydym yn croesawu'r cynnig i greu Panel Cynorthwyo ac yn pwysleisio bod yn rhaid iddo fod yn gynrychioliadol o'r gymuned arwyddwyr IAP ledled Cymru.

**153.** O ystyried pwysigrwydd addysg yng nghyd-destun y Bil hwn, rydym yn cytuno ag awgrym y Comisiynydd Plant i ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu panel plant a phobl ifanc ac yn annog yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil a Llywodraeth Cymru i roi ystyriaeth bellach i sut y gellir cynrychioli eu lleisiau.

# 6. Monitro, atebolrwydd a gorfodi

Mae'r bennod hon yn edrych ar sut y mae'r Bil yn sicrhau atebolrwydd ac yn monitro cynnydd.

## Gofynion monitro ac adrodd

**154.** Mae adrannau 6 a 7 yn nodi'r trefniadau adrodd o dan y Bil sy'n cynnwys ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus adrodd ar sut y maent wedi gweithredu cynlluniau IAP lleol o fewn 12 mis i'w cyhoeddi. Byddai'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad cynnydd bob tair blynedd. Mae'n ofynnol i'r ddau fath o adroddiad gael eu cyhoeddi yn IAP.

**155.** Roedd Sarah Thomas o'r Ganolfan Arwyddo, Golwg a Sain a Polly Winn o RNID Cymru yn cytuno y byddai'r Bil yn ennyn cryn ddiddordeb ymysg y gymuned fyddar ac y byddai'n destun cryn graffu ar ôl iddo gael ei basio, ac awgrymwyd y byddai angen rheoli'r disgwyliadau. Awgrymodd Polly Winn y byddai tryloywder a gwybodaeth hygyrch yn hanfodol i sicrhau nad yw pobl fyddar yn teimlo'n rhwystredig gyda'r cynnydd ar ôl i'r Bil gael ei basio.[105]

**156.** Roedd CBS Caerffili, CBS Wrecsam, yr NRCDP ac eraill o blaid sefydlu mecanweithiau clir ar gyfer monitro ac adrodd ar gynnydd a gwerthuso effeithiolrwydd y Bil.[106] Dadleuodd Cyngor Dinas Casnewydd fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru adrodd ar ei chynnydd ei hun o ran cyflawni'r strategaeth IAP.[107]

**157.** Dywedodd yr NRCDP y bydd effeithiolrwydd mecanweithiau adrodd yn dibynnu ar eglurder, amlder a hygyrchedd yr adroddiadau, yn ogystal â gallu defnyddwyr Byddar a sefydliadau cynrychioliadol i graffu ar y canlyniadau.[108]

**158.** Awgrymodd y Comisiynydd Plant y gallai'r Bil fod yn gliriach ynglŷn â'r hyn a fydd yn digwydd o ganlyniad i'r adroddiad cynnydd tair blynedd sy'n ofynnol i Weinidogion Cymru ei gyhoeddi, a pha fecanweithiau fyddai'n galluogi arwyddwyr IAP i ymateb a llunio strategaethau ar gyfer y dyfodol. Awgrymodd y

[105] Cofnod y Trafodion, paragraff 46, 116, 22 Medi 2025
[106] BSL 07 CBS Caerffili, BSL 17 CBS Wrecsam, BSL 32 NRCDP
[107] BSL 27 Cyngor Dinas Casnewydd
[108] BSL 32 NRCDP

byddai gofyniad ffurfiol i Weinidogion Cymru ymateb i argymhellion gan y Cynghorydd IAP neu'r panel cynghori yn cryfhau atebolrwydd.[109]

**159.** Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'r Bil yn dibynnu ar ddulliau adrodd agored a thryloyw a bod y rhain yn ddull cymesur o fonitro. Dywedodd y byddai gwaith craffu ar yr adroddiadau hynny gan y cyhoedd yn bwysig, gan ychwanegu bod gan Weinidogion Cymru y pwerau i fynnu bod corff cyhoeddus yn adolygu eu cynllun os yw'n annigonol.[110]

## Atebolrwydd

**160.** Mae Adran 5 (7) yn nodi ei bod yn ofynnol i gorff cyhoeddus rhestredig gydymffurfio â chais am wybodaeth gan y Cynghorydd IAP, oni bai ei fod yn ystyried y byddai gwneud hynny'n gwrthdaro â'i ddyletswyddau neu'n cael effaith andwyol ar arfer ei swyddogaethau.

**161.** Roedd rhai rhanddeiliaid yn pryderu nad oes gan y Bil ddigon o fecanweithiau ar gyfer dwyn cyrff cyhoeddus rhestredig i gyfrif mewn perthynas â dilyn eu cynlluniau IAP. Dadleuodd sawl un y dylai'r Cynghorydd IAP chwarae rhan yn y gwaith o fonitro a chraffu ar berfformiad cyrff cyhoeddus rhestredig. Dywedodd y BDA ei bod yn bwysig bod Cynghorydd IAP yn gallu amlygu materion pwysig a hollbwysig a bod hynny'n cael ei nodi, er ei bod wedi awgrymu y gellid cyflawni hyn drwy sicrhau bod ganddo ddigon o adnoddau a chefnogaeth i ddweud y gwir plaen wrth y rhai sydd mewn grym.[111]

**162.** Dadleuodd RNID Cymru y dylai'r Cynghorydd IAP gael pwerau i ymchwilio ac ymyrryd er mwyn gorfodi cyrff cyhoeddus ddilyn eu cynlluniau. Nododd mai dim ond pe byddent yn gosod mesurau clir, amserol mewn cynlluniau IAP lleol y byddai hyn yn bosibl.[112]

**163.** Esboniodd CLlLC fod gan awdurdodau lleol eisoes fecanweithiau ar gyfer goruchwylio ac atebolrwydd, ond dylai'r Cynghorydd IAP dynnu sylw at broblemau a chynghori Gweinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus ar sut i'w hosgoi yn y dyfodol.

**164.** Roedd rhai cyrff cyhoeddus eisiau mwy o eglurder ynghylch rôl y Cynghorydd IAP a'i berthynas â chyrff cyhoeddus rhestredig. Dywedodd Sarah Morley o

[109] Cofnod y Trafodion, paragraff 108
[110] Cofnod y Trafodion, paragraff 251, 13 Hydref 2025
[111] Cofnod y Trafodion, paragraff 226, 22 Medi 2025
[112] BSL 24 RNID Cymru, Cofnod y Trafodion, paragraff 75, 29 Medi 2025

Felindre y dylai cylch gorchwyl y Cynghorydd IAP ddatgan yn glir beth fydd y berthynas.[113]

**165.** Roedd rhywfaint o'r dystiolaeth, gan gynnwys tystiolaeth Undeb Cenedlaethol Dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain a Dr Rob Wilks, yn cwestiynu'r diffyg mecanweithiau yn y Bil i ganiatáu i bobl fyddar godi pryderon mewn achosion lle nad yw cyrff cyhoeddus rhestredig yn cydymffurfio â'r Bil.[114]

**166.** Dadleuodd Dr Kate Attfield y dylai cyrff cyhoeddus rhestredig nad ydynt yn cydymffurfio â'u dyletswyddau neu sy'n methu â darparu gwybodaeth yn IAP, lle bo angen, gael eu cosbi.

**167.** Dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil y gallai Llywodraeth Cymru a'r cyrff rheoleiddio perthnasol chwarae rhan wrth graffu ar berfformiad cyrff cyhoeddus rhestredig.[115] Cydnabu Mark Isherwood na fyddai gan y Cynghorydd IAP bwerau i ymyrryd yn uniongyrchol. Fodd bynnag, roedd yn rhagweld y byddai'r Cynghorydd IAP a'r panel yn codi pryderon gyda Gweinidogion Cymru a chyda chyrff cyhoeddus rhestredig ac na ddylai fod unrhyw amheuaeth, pan fyddant yn tynnu sylw at ddiffygion neu'n canmol modelau arfer da, y dylid bwrw ymlaen â hynny wedyn.[116]

**168.** O ran y darpariaethau yn adran 5(7) sy'n nodi bod yn "rhaid [i gorff cyhoeddus] gydymffurfio" â chais am wybodaeth gan y Cynghorydd IAP , oni bai ei fod "yn ystyried y byddai gwneud hynny yn gwrthdaro â'i ddyletswyddau neu'n cael effaith andwyol ar arfer ei swyddogaethau", eglurodd yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil:

> *"It is not my intention that this provision could or should be used as a general get out for public bodies. It should only be used when there is a genuine reason that would prevent that public body from providing the information requested. That could include, for example, information that, if released, could breach a duty of confidentiality held by that body."*

[113] Cofnod y Trafodion, paragraff 134, 6 Hydref 2025
[114] Cofnod y Trafodion, paragraff 90, 29 Medi 2025
[115] Cofnod y Trafodion, paragraffau 88 ac 89, 15 Medi 2025
[116] Cofnod y Trafodion, paragraffau 62 ac 80, 15 Medi 2025

**169.** Nododd Mark Isherwood fod y geiriad yn adlewyrchu darpariaethau yn Neddfau eraill y Senedd, gan gynnwys yn benodol, Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.[117]

**170.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y Bil, yn ei barn hi, yn cynnwys fframwaith digonol ar gyfer monitro ac y bydd gan Weinidogion Cymru y pŵer i gyfarwyddo ac ymyrryd os oes angen. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet yn glir farn y llywodraeth na ddylai'r Cynghorydd IAP gael pwerau gorfodi, yn lle hynny byddai eu rôl yn craffu ar gyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru, yn ogystal â'u helpu a'u cefnogi.[118]

## Cwynion a gorfodi

**171.** Roedd y cynigion cychwynnol ar gyfer Bil IAP yn cynnwys darpariaeth ar gyfer Comisiynydd IAP, y cynigiwyd y byddai'n sefydlu system ar gyfer ymchwilio i gwynion. Cafodd y cynigion hyn eu gwrthod yn y pen draw o blaid Cynghorydd a phanel cynghori; fodd bynnag, roedd rhai yn dal i alw am eglurder ynghylch y rôl mewn perthynas â chwynion.

**172.** Dywedodd Sarah Thomas o'r Ganolfan Arwyddo, Golwg a Sain a Dr Rob Wilks y dylai'r Cynghorydd IAP ymwneud rhywfaint â chwynion, ar y sail bod systemau cwynion presennol yn aml yn anhygyrch i arwyddwyr IAP.[119]

**173.** Dywedodd Polly Winn o RNID Cymru fod angen fframwaith clir ar gyfer adborth a chwynion ond awgrymodd y gallai hyn fod yn rhan o waith ehangach gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r rhwystrau y mae arwyddwyr Iaith Arwyddion Prydain yn eu hwynebu, neu y gallai'r Cynghorydd IAP weithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i wneud prosesau presennol yn fwy hygyrch.[120]

**174.** Roedd Rocio Cifuentes, y Comisiynydd Plant, o'r farn bod potensial enfawr ar gyfer dyblygu a nododd nad oedd rôl y Cynghorydd IAP wedi'i chynllunio gyda mecanweithiau i ymchwilio i gwynion na delio â nhw. Awgrymodd y gallai'r Cynghorydd IAP ddarparu gwybodaeth am sut i gael mynediad at fecanweithiau cwyno presennol.[121]

[117] Papur i'w nodi 5.3 Gohebiaeth gan Mark Isherwood at y Cadeirydd ynghylch Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) - 17 Medi 2025
[118] Cofnod y Trafodion, paragraffau 248, a 251 - 253, 13 Hydref 2015
[119] Cofnod y Trafodion, paragraff 86, 29 Medi 2025
[120] Cofnod y Trafodion, paragraff 38, 22 Medi 2025
[121] Cofnod y Trafodion, paragraff 136, 29 Medi 2025

**175.** Dywedodd BIP Caerdydd a'r Fro ei fod wedi gweithio i sicrhau bod ei broses gwyno yn hygyrch i arwyddwyr IAP. Fodd bynnag, awgrymodd fod angen i wasanaethau iechyd hefyd ailennyn ymddiriedaeth pobl fyddar, gan ddweud na fydd cymunedau sy'n teimlo nad oes neb yn gwrando arnynt nac yn ymgysylltu â nhw o reidrwydd yn codi pryderon.[122]

## Perthynas â'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

**176.** O ran cwynion, fe wnaethom ysgrifennu at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus i gael syniad o'r llwyth achosion sy'n ymwneud ag IAP. Roedd yn awyddus i bwysleisio bod ei swyddfa'n ymdrin â chwynion gan "unigolion sy'n profi anghyfiawnder neu galedi oherwydd problemau gyda hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru" ond nad ei rôl oedd "dod i'r casgliad bod rhywun wedi cael ei wahaniaethu yn ei erbyn".[123]

**177.** Cadarnhaodd yr Ombwdsmon, er bod ei swyddfa'n gallu derbyn cwynion mewn fformatau heblaw rhai ysgrifenedig, gan gynnwys IAP, fod ymwybyddiaeth y cyhoedd o hyn yn ôl pob tebyg yn is nag y byddai'n ei ddymuno. Darparodd yr Ombwdsmon ffigurau sy'n awgrymu mai "anaml y mae mynediad at ddehongliad Iaith Arwyddion Prydain yn rhan o'n cwynion". Ers 2020 mae'r Ombwdsmon wedi derbyn 12 o gwynion yn ymwneud â mynediad at wasanaeth dehongli IAP a dim ond tri achwynydd sydd wedi gofyn i swyddfa'r Ombwdsmon am wasanaeth dehongli IAP ers 2020. Mae'r Ombwdsmon yn derbyn tua 3,000 o gwynion y flwyddyn.

**178.** Nododd yr Ombwdsmon "nad yw swydd arfaethedig Cynghorwr Iaith Arwyddion Prydain ar hyn o bryd yn cynnwys unrhyw gyfrifoldeb am ymdrin â chwynion ynghylch diffyg cydymffurfio" a mynegodd y farn bod angen mwy o eglurder ynghylch "y dewisiadau sydd ar gael i ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain sy'n canfod nad yw gwasanaethau cyhoeddus yn cyflawni eu dyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth arfaethedig.".[124]

**179.** Cadarnhaodd swyddfa'r Ombwdsmon ei barn mai dyma fyddai'r corff priodol ar gyfer unigolion sy'n profi anghyfiawnder neu galedi oherwydd problemau gyda hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a galwodd am:

[122] Cofnod y Trafodion, paragraff 129, 6 Hydref 2025
[123] Ymateb i'r ymgynghoriad gan Ombwdsmon Cymru ynghylch craffu ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)
[124] Ymateb i'r ymgynghoriad gan Ombwdsmon Cymru ynghylch craffu ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)

> *"osod dyletswydd ar y Cynghorwr Iaith Arwyddion Prydain i baratoi a chyhoeddi canllawiau ar y llwybr priodol ar gyfer cwynion am fynediad at wasanaethau gan ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain. Dylai fod dyletswydd ar y Cynghorwyr Iaith Arwyddion Prydain i ymgynghori ar y canllawiau hynny gyda'n swyddfa, er mwyn sicrhau bod ein rôl yn cael ei hadlewyrchu'n gywir a bod y canllawiau'n cyd-fynd â'n Polisi a Chanllawiau Cwynion Enghreifftiol."*[125]

**180.** Roedd Jane Hutt AS yn glir na fyddai'r Cynghorydd IAP yn clywed cwynion unigol nac yn ymgymryd â rôl gwaith achos a thynnodd sylw at bryder y byddai hyn yn dyblygu prosesau sy'n bodoli mewn mannau eraill.[126]

**181.** Dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil wrthym, er ei fod yn rhagweld y gallai'r cynghorydd IAP glywed cwynion, hyd yn oed os na ofynnwyd amdanynt ac nid ar sail ffurfiol, eglurodd yn ddiweddarach y byddai'n rhaid i'r Cynghorydd weithio gyda'r prosesau sydd ar gael a gobeithio y gellid eu gwella yn y dyfodol. Dywedodd Mark Isherwood AS na fyddai'r Cynghorydd yn dderbynnydd nac yn oruchwyliwr cwynion ffurfiol ond y gallai'r sawl sydd yn y swydd a'r tîm o'i amgylch dynnu sylw at unrhyw bryderon sy'n codi wrth ryngweithio â chyrff cyhoeddus.[127]

## Barn y Pwyllgor

### Monitro ac atebolrwydd

**182.** Rydym yn cefnogi'r trefniadau monitro a gynigir gan y Bil ac yn credu ei bod yn bwysig pwysleisio'r rôl y mae tryloywder a gwaith craffu cyhoeddus yn ei chwarae wrth ddwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif.

**183.** O ran y darpariaethau yn adran 5(7) sy'n nodi bod yn "rhaid [i gorff cyhoeddus] gydymffurfio" â chais am wybodaeth gan y Cynghorydd IAP , oni bai ei fod "yn ystyried y byddai gwneud hynny yn gwrthdaro â'i ddyletswyddau neu'n cael effaith andwyol ar arfer ei swyddogaethau", rydym yn credu y bydd angen i Lywodraeth Cymru fonitro'n fanwl y defnydd o'r ddarpariaeth hon i sicrhau na chaiff ei defnyddio'n amhriodol neu fel mater o drefn gan gyrff cyhoeddus i geisio osgoi cyflawni eu rhwymedigaethau newydd.

---

[125] Ymateb i'r ymgynghoriad gan Ombwdsmon Cymru ynghylch craffu ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)
[126] Cofnod y Trafodion, paragraff 253, 13 Hydref 2025
[127] Cofnod y Trafodion, paragraff 94, 20 Hydref 2025

**Cwynion**

**184.** Un o'r prif ffyrdd y mae'r Bil yn wahanol i gynigion gwreiddiol yr Aelod sy'n Gyfrifol yw o ran cwynion. Cafodd cynigion gwreiddiol i sefydlu Comisiynydd IAP a gweithdrefn gwyno newydd eu dileu o blaid y Cynghorydd IAP arfaethedig sydd yn y Bil fel y'i cyflwynwyd.

**185.** Rydym yn llwyr gytuno na fyddai'n briodol i'r Cynghorydd IAP a gynigir nawr gael rôl uniongyrchol yn ymwneud â chwynion. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod gan ddefnyddwyr gwasanaethau hawl i gymorth mewn achosion lle mae cyrff cyhoeddus yn methu â bodloni gofynion y Bil. Y mecanwaith priodol ar gyfer hyn yn y lle cyntaf yw gweithdrefn gwyno berthnasol cyrff cyhoeddus o fewn strwythurau atebolrwydd presennol. Fodd bynnag, mae diffyg eglurder posibl ynghylch yr opsiynau cwyno sydd ar gael i arwyddwyr IAP ac aelodau'r cyhoedd, yn enwedig ar ôl iddynt ddefnyddio pob gweithdrefn gwyno fewnol. Rydym yn cytuno â'r awgrym gan randdeiliaid a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus y byddai mwy o eglurder yn fuddiol.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell y dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil egluro'r opsiynau sydd ar gael i achwynwyr sydd angen cymorth mewn achosion lle mae gwasanaethau cyhoeddus yn methu â chyflawni eu dyletswyddau o dan y Bil (os caiff ei ddeddfu gan y Senedd) ac yn ystyried a oes angen unrhyw newidiadau i'r Memorandwm Esboniadol a allai helpu yn hynny o beth.

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell y dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 a fyddai'n gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi canllawiau ar y llwybr priodol i arwyddwyr IAP allu gwneud cwynion ynghylch mynediad at wasanaethau. Dylai hyn ddod law yn llaw â dyletswydd i ymgynghori ar y canllawiau hynny a phennu Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymgynghorai mandadol.

# 7. Ymgysylltu a chydgynhyrchu

Bydd ymgysylltu â'r gymuned Fyddar yn hanfodol i lwyddiant y Ddeddf os daw'n gyfraith. Fodd bynnag, nid yw'r Bil ei hun yn dweud dim am sut y gallai hyn ddigwydd yn ymarferol.

## Ymgynghori a chydgynhyrchu

**186.** Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Cynghorydd IAP, ac "unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol" cyn cyhoeddi strategaeth IAP genedlaethol, a chyn cyhoeddi adroddiad cynnydd tair blynedd.

**187.** Pwysleisiwyd droeon gan y rhanddeiliaid a'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil bwysigrwydd ymgysylltu â chymunedau Byddar i bennu blaenoriaethau a chydgynhyrchu atebion a chanllawiau os daw'r Bil yn gyfraith. Ar yr un pryd, nododd rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys yr NRCPD, nad yw'r Bil yn mandadu fframweithiau strwythuredig ar gyfer cydgynhyrchu, ac nid yw'n nodi bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus weithio gyda sefydliadau sy'n cynrychioli'r gymuned Fyddar.[128]

**188.** Roedd Polly Winn o RNID Cymru yn awyddus i weld mwy o eglurder ynghylch ble y byddai ymgysylltu â phobl fyddar yn digwydd yn holl ddarpariaethau'r Bil a mynegodd bryderon y gallai'r gymuned fyddar gael ei gorlwytho. Dadleuodd y dylai canllawiau Llywodraeth Cymru gael eu cydgynhyrchu gyda phobl fyddar, ac y dylai ymgysylltu fod yn nod datganedig o fewn y strategaeth IAP genedlaethol.

**189.** Dadleuodd y BDA y bydd cyflawni'r Bil yn creu heriau i Lywodraeth Cymru gan gynnwys cydbwyso'r angen i ddatblygu cynlluniau IAP yn gyflym, â'r capasiti i'w cyflawni'n dda:

> *"The fundamental tension is around the capacity of the Welsh deaf signing community to lead the development of the plans and thereby to have authority over our lives and the delivery of our aspirations. Too many plans will overwhelm the capacity of Welsh deaf signers to play*

[128] BSL 06 NRCDP

> *a leadership role; too few will cause a failure in the delivery of vital and urgent improvement. We believe that it is critical that the Welsh Government acknowledges and responds to this tension."*

**190.** Mewn ymateb i hynny, galwodd y BDA am broses gynllunio wedi'i harwain gan bob Fyddar ac i Lywodraeth Cymru ystyried pa gamau y gall eu cymryd i ddatblygu carfan arweinyddiaeth o bobl fyddar.[129]

**191.** Pwysleisiodd RNID, y Ganolfan Arwyddo, Golwg a Sain, a'r NDCS yr angen i weithio gyda sefydliadau cymunedol presennol, ac i edrych ar arfer gorau presennol.[130]

**192.** Dywedodd rhai awdurdodau efallai nad oes gan gyrff cyhoeddus y cysylltiadau a'r capasiti i ymgysylltu'n ystyrlon â chymunedau byddar. Yn ôl CBS Caerffili, er bod cyrff cyhoeddus yn awyddus i ymgysylltu, yn aml ceir diffyg cysylltiadau effeithiol â chymunedau Byddar, gan arwain at brosesau ymgynghori anhygyrch.[131]

**193.** Awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful y gallai'r Cynghorydd IAP chwarae rhan yn y gwaith o hwyluso ymgysylltiad â chymunedau Byddar a darparu cefnogaeth ymarferol.[132]

**194.** Dywedodd Mark Isherwood AS y dylai penodi'r Cynghorydd IAP alluogi llais pobl fyddar i gael ei glywed wrth galon y Llywodraeth ac yn y cyrff cyhoeddus hynny. Roedd yn rhagweld y byddai'r Bil yn galluogi cymunedau byddar, y Cynghorydd IAP a'r panel cynorthwyo i helpu i benderfynu ar y meysydd blaenoriaeth i weithredu arnynt.

**195.** Mewn perthynas â chynlluniau IAP lleol, dywedodd ei fod yn gobeithio y byddai cymunedau Byddar yn cael y cyfle i esbonio eu profiad ar lefel leol i'r cyrff cyhoeddus, a gobeithio i gyd-ddylunio a chydgyflwyno'r atebion angenrheidiol.

### Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rhanddeiliaid IAP

> *Sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rhanddeiliaid IAP ym mis Ionawr 2025 gyda'r bwriad o ddatblygu argymhellion i lywio ei 'map llwybrau' polisi IAP. Cafodd y grŵp ei gyd-*

---

[129] BSL 23 Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain
[130] Cofnod y Trafodion, paragraffau 95 a 98, 29 Medi 2025
[131] BSL 07 CBS Caerffili
[132] BSL 29 Cyngor Bwrdeistref Merthyr

*gadeirio gan ddau arwyddwr IAP a daeth â chymysgedd o randdeiliaid ynghyd gan gynnwys elusennau a chyrff cynrychioliadol.*

*Ar 30 Medi 2025 cyhoeddodd y Grŵp 27 o argymhellion yn cwmpasu ystod o faterion perthnasol, wedi'u rhannu'n 10 amserlen tymor byr ac 17 o amserlenni tymor hwy.*

*Roedd yr* ***argymhellion tymor byr*** *i ddechrau ar unwaith a chael eu cwblhau o fewn 18 mis. Roeddent yn cwmpasu materion fel casglu data IAP, egluro diffiniadau o IAP a mapio'r ddarpariaeth IAP ac arferion gorau presennol.*

*Roedd yr* ***argymhellion hirdymor*** *i ddechrau o fewn 2 flynedd a chael eu cwblhau o fewn 5 mlynedd. Roedd yr argymhellion hyn yn cynnwys mesurau i hybu'r gweithlu dehongli IAP, adolygu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar, a gwella gwasanaethau iechyd meddwl i bobl fyddar.*[133]

**196.** Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet bwysigrwydd gweithio gyda'r gymuned arwyddo IAP i sicrhau bod eu blaenoriaethau a'u profiad bywyd yn cael eu hadlewyrchu yn y cynlluniau a'r canllawiau a fydd yn ofynnol gan y Bil. Cyfeiriodd Jane Hutt AS at grŵp rhanddeiliaid IAP Llywodraeth Cymru sawl gwaith gan ddweud ei fod eisoes wedi bod yn fodel o arfer da o ran arweinyddiaeth ar faterion byddar ac mai IAP oedd prif iaith yr holl gyfarfodydd. Ychwanegodd y byddai gwrando ar farn y gymuned arwyddo IAP yn allweddol gan ddweud os dilynir canllawiau'r gymuned, y bydd pethau'n debygol o gael eu gwneud yn iawn.[134]

## Barn y Pwyllgor

**197.** Yr angen i ymgysylltu â chymuned arwyddo IAP wrth ddatblygu a chydgynhyrchu cynlluniau a chanllawiau oedd un o'r themâu cliriaf oll a ddeilliodd o'n gwaith craffu ar y Bil. Mae'n galonogol bod yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil a Llywodraeth Cymru yn cydnabod hyn ac wedi mynegi'n glir yn eu tystiolaeth eu disgwyliad y byddai hyn yn digwydd. Fodd bynnag, nodwn nad yw'r Bil fel y'i drafftiwyd yn gwarantu y bydd hyn yn digwydd.

[133] Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: Grŵp Rhanddeiliaid Iaith Arwyddion Prydain (BSL): argymhellion
[134] Cofnod y Trafodion, paragraff 244, 13 Hydref 2025

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau ymgysylltiad a chydgynhyrchu drwy osod gofyniad ffurfiol ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ag arwyddwyr IAP Byddar ar y strategaeth a'r canllawiau IAP cenedlaethol.

**198.** Gan fod y gymuned arwyddwyr IAP Byddar yng Nghymru yn gymharol fach, roedd pryderon y gallai'r lefel o ymgysylltiad a ragwelir gan y Bil fod yn ormod o faich ar y garfan fach hon o unigolion. Mae'r risg o syrffed ar ymgynghori yn rhywbeth y mae angen ei ystyried. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall rymuso carfan o arweinwyr sy'n cynnwys arwyddwyr IAP Byddar a rhoi'r sgiliau a'r profiadau iddynt sy'n angenrheidiol i arwain y gwaith o gynllunio a chyflawni'r Bil os daw'n gyfraith.

**Casgliad 4.** Rydym yn croesawu adroddiad y grŵp rhanddeiliaid IAP ac yn gobeithio y bydd yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer symud materion yn eu blaenau p'un a yw'r Bil hwn yn cael ei basio ai peidio.

# 8. Rhwystrau posibl a gweithredu'r Bil

Bydd angen i gyrff cyhoeddus gydweithio i baratoi cynlluniau a'u cyflawni'n llwyddiannus. Bydd angen i Lywodraeth Cymru ddarparu cefnogaeth ac arweiniad pwrpasol.

## Argaeledd dehonglwyr a chyfieithwyr

**199.** Yn ôl yr ASLI, ym mis Gorffennaf 2025 roedd 54 o ddehonglwyr iaith arwyddion cofrestredig yng Nghymru.[135]

**200.** Codwyd prinder dehonglwyr a chyfieithwyr IAP droeon, gan gynnwys gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd, a chan weithwyr proffesiynol eu hunain sy'n gweithio yn y sector.[136] Roedd yr NRCDP, ASLI a CLlLC ymhlith y sefydliadau a oedd yn galw am gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r prinder hwn gan awgrymu y gellid cyflawni hyn fel rhan o'r strategaeth IAP genedlaethol.

**201.** Mynegodd sawl corff cyhoeddus, yn enwedig awdurdodau lleol, bryder y byddai'r Bil yn cynyddu'r galw am wasanaethau dehongli a chyfieithu sydd eisoes dan bwysau. Rhybuddiwyd y gallai hyn arwain at oedi, gostyngiad yn safon y gwasanaeth, a chostau uwch wrth i sefydliadau gystadlu am yr un adnoddau.[137]

**202.** Cododd AaGIC ac Iechyd Cyhoeddus Cymru bryderon ynghylch dibynadwyedd ac ansawdd y gwasanaethau cyfieithu presennol, a'r anawsterau yr oeddent yn eu hwynebu wrth sicrhau ansawdd gwybodaeth IAP.[138]

**203.** Awgrymodd CLlLC y gallai cynnydd yn y galw o ganlyniad i'r Bil olygu y byddai dehonglwyr IAP presennol yn llai abl i gefnogi apwyntiadau byr rybudd neu apwyntiadau brys.[139]

[135] Gohebiaeth gan Stephen Brattan-Wilson o Gymdeithas y Dehonglwyr Iaith Arwyddion ynghylch Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)
[136] Tystiolaeth ysgrifenedig BSL 27 Cyngor Dinas Casnewydd, BSL 21 CLlLC, BSL 03 Hywel Dda, BSL 13 Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, BSL 32 NRCDP, BSL 05 ASLI, BSL 09 Dr Rob Wilks
[137] BSL 27 Cyngor Dinas Casnewydd, BSL 21 CLlLC, BSL 03 Hywel Dda, BSL 25 Cwm Taf Morgannwg
[138] BSL 22 AaGIC, BSL 31 Iechyd Cyhoeddus Cymru
[139] BSL 21 CLlLC

**204.** Codwyd yr angen i fuddsoddi mewn hyfforddi dehonglwyr a chyfieithwyr IAP droeon, gan gynnwys gan yr WCDP, y Ganolfan Arwyddo, Golwg a Sain, CLlLC, Dr Julia Terry, Coleg Brenhinol y Seiciatryddion ac eraill. Adleisiodd yr NRCPD y galwadau hyn ochr yn ochr â buddsoddi mewn bwrsariaethau a datblygiad proffesiynol parhaus i sicrhau cyflenwad digonol o ymarferwyr. Dywedodd y dylai sicrhau ansawdd fod yn ystyriaeth allweddol, a dylai canllawiau a argymhellir annog neu fynnu defnyddio gweithwyr proffesiynol sydd wedi cofrestru gyda'r NRCPD. [140]

**205.** Tynnodd y Ganolfan Arwyddo, Golwg a Sain, CLlLC ac eraill sylw at y ffaith nad oedd llwybrau clir i hyfforddi a chymhwyso fel dehonglydd yng Nghymru. Cyfeiriodd Jodie Gallagher-Smith a'r WCDP at y gost sy'n gysylltiedig â chael hyfforddiant IAP achrededig, yn enwedig ar lefelau uwch.[141]

**206.** Nododd Sarah Thomas o'r Ganolfan Arwyddo, Golwg a Sain fod llawer o'r dehonglwyr a hyfforddwyd drwy raglen Dyfodol BSL yn dod i ddiwedd eu bywydau gwaith.[142]

> *Nod y rhaglen Dyfodol BSL, a sefydlwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ar y pryd, oedd gwella cynhwysiant cymdeithasol a mynediad at wasanaethau ar gyfer Arwyddwyr IAP yng Nghymru drwy gynyddu nifer y dehonglwyr proffesiynol o 12 i 64.[143] Fe'i cynhaliwyd o 2006 i 2008, ac yn ôl Llywodraeth Cymru, recriwtiwyd a hyfforddwyd 30 o ddehonglwyr IAP Saesneg.*

**207.** Tynnodd Jemina Napier sylw at yr angen am hyfforddiant ar lefel uwch. Dywedodd y gall dehonglwyr fod yn amharod i weithio mewn llys, gyda'r heddlu neu mewn sefyllfaoedd gofal iechyd, lle y gall pobl fod yn arbennig o agored i niwed ac nad yw'r dehonglwyr o bosibl yn teimlo bod ganddynt y wybodaeth arbenigol sydd ei hangen arnynt.[144]

**208.** Fe wnaethom gysylltu â gweithwyr proffesiynol IAP yn uniongyrchol, yr oedd rhai ohonynt wedi ymateb yn unigol, neu wedi cyfrannu at yr ymateb a gyflwynwyd gan Stephen Brattan-Wilson, cynrychiolydd Cymru yr ASLI. Amlinellodd ei dystiolaeth yn fanwl lawer o'r heriau sy'n amlwg yng Nghymru, gan

---

[140] BSL 32 NRCDP
[141] Cofnod y Trafodion, paragraff 134, 22 Medi 2025
[142] Cofnod y Trafodion, paragraff 111, 22 Medi 2025
[143] Llywodraeth Cymru, rhaglen BSL Futures, wales.gov
[144] Cofnod y Trafodion, paragraffau 308-310, 29 Medi 2025

gynnwys y diffyg buddsoddiad mewn addysg IAP i blant byddar ac yn y blynyddoedd cynnar, diffyg hyfforddiant a llwybrau gyrfa, gyda'r rhan fwyaf yn gorfod mentro i Loegr neu'r Alban i gael mynediad at gyfleoedd. Roedd gwybodaeth ychwanegol yr ASLI yn nodi'n glir nad oedd yr aelodau'n cefnogi dull cyflym o gynyddu nifer y gweithwyr proffesiynol IAP, gan ddadlau yn hytrach o blaid rhaglen hyfforddi strwythuredig i gynyddu'r niferoedd yn raddol.[145]

**209.** Dywedodd gwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan Julie Doyle, gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio fel dehonglydd IAP achrededig:

> *"Addressing interpreter shortages in Wales requires more than recruitment. A strategic, long-term investment in Deaf education, interpreter training, BSL teaching workforce planning and public service interpreter booking system reform is essential."* [146]

**210.** Dadleuodd CBS Wrecsam ac Iechyd Cyhoeddus Cymru dros drefniadau cydgysylltu a chefnogi canolog er mwyn gwella effeithlonrwydd. Galwodd ICC ac Angela Hughes o BIP Caerdydd a'r Fro am ystyried dull "unwaith i Gymru" a system ganolog ar gyfer cael mynediad at wasanaethau cyfieithu a dehongli.[147]

**211.** Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet y prinder fel "her y mae angen mynd i'r afael â hi" gan ychwanegu, fodd bynnag, bod:

> *"Aelodau o'r Grŵp Rhanddeiliaid BSL wedi dweud yn glir y dylai unrhyw gynllun i fynd i'r afael â'r prinder hwn fod yn bragmatig a graddol. Cyhoeddwyd argymhellion y Grŵp ar wefan Llywodraeth Cymru ar 30 Medi ac maent yn cynnwys argymhelliad tymor byr ar gyfer y gweithlu dehongli a chyfieithu BSL i fapio'r gweithlu addysgu presennol i ddeall y lefelau o ddarpariaeth BSL."*[148]

[145] PTN 2.3 Gohebiaeth gan Stephen Brattan-Wilson o Gymdeithas y Dehonglwyr Iaith Arwyddion ynghylch Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) - 20 Hydref 2025
[146] PTN 2.2 Gohebiaeth at y Cadeirydd gan Julie Doyle ynghylch Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) - 22 Hydref 2025
[147] Tystiolaeth ysgrifenedig, BSL 31 Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cofnod y Trafodion, paragraff 173, 6 Hydref 2025
[148] PTN. 3.4 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet at y Pwyllgor: gwybodaeth ddilynol yn ymwneud â Bil IAP (Cymru), 23 Hydref 2025

**212.** Dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil wrthym fod angen cynllun priodol ar gyfer y gweithlu os am sicrhau bod y Bil yn cyflawni ei ddiben statudol.[149]

## Cyllid a chostau

**213.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) yn y Memorandwm Esboniadol yn amcangyfrif bod costau cyffredinol y Bil rhwng £3.76 miliwn a £4.14 miliwn dros gyfnod o 10 mlynedd. Fodd bynnag, dywed y Memorandwm Esboniadol:

> *"y strategaeth IAP Genedlaethol a'r cynlluniau IAP fydd y prif ddogfennau a fydd yn pennu sut y mae IAP yn cael ei hybu a'i hwyluso yng Nghymru. Heb wybod manylion llawn yr hyn a fydd yn y dogfennau allweddol hynny, rhaid cyfrif y costau a briodolir i'w gweithredu fel rhai heb eu meintioli."*[150]

**214.** Dadleuodd awdurdodau lleol yn gryf dros gyllid ychwanegol i dalu costau cyflawni dyletswyddau o dan y Bil. Disgrifiodd Merthyr Tudful lawer o gyrff cyhoeddus fel rhai sydd eisoes dan bwysau ac y gallant ei chael hi'n anodd cyflawni dyletswyddau newydd heb gyllid a staff ychwanegol.[151]

**215.** Mynegodd CLlLC bryderon bod sawl ffactor anhysbys a allai ddylanwadu ar gostau yn y dyfodol a nododd nad yw amcangyfrifon costau ar hyn o bryd yn ystyried uwchraddio graddfeydd cyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer 2025/26. Dywedodd ei bod yn hanfodol bod gweithredu cynlluniau IAP lleol yn cael eu costio a bod adnoddau digonol yn cael eu neilltuo iddynt. Gan gynrychioli awdurdodau lleol, dywedodd Sarah Capstick, heb gyllid ychwanegol, y byddai'r Bil yn troi'n ymarfer ticio blychau ac nad ydynt am weld hynny'n digwydd ac ychwanegodd eu bod yn pryderu bod y costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhy isel ac nad oeddent yn ystyried y gwaith cyflawni.[152]

**216.** Dywedodd Cyngor Ceredigion wrthym y byddai ansawdd eu cynllun yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael.

[149] Cofnod y Trafodion, paragraff 31, 20 Hydref 2025
[150] Memorandwm Esboniadol, paragraff 254
[151] BSL 30 CBS Merthyr Tudful
[152] BSL 21 CLlLC; Cofnod y Trafodion, paragraffau 168 - 169, 13 Hydref 2025

**217.** Crynhodd Lee Wenham o Gyngor Abertawe farn yr awdurdod lleol ynghylch gweithredu'r Bil, gan ddweud gyda'r adnoddau cywir, y gallai ei weithredu gydag amser, ond heb hynny, ni fyddai mor hyderus.[153]

**218.** Yn ôl academyddion o Brifysgol Caeredin, roedd diffyg cyllid ar gyfer gweithredu Deddf IAP yn yr Alban wedi arwain at ddull eithriadol o ofalus o ddatblygu cynlluniau IAP lleol, gyda chyrff cyhoeddus yn aros i'r llywodraeth genedlaethol weithredu neu ddarparu cyllid.[154]

**219.** Rhybuddiodd rhai cyrff iechyd ac awdurdodau lleol, gan gynnwys BIP Hywel Dda a CBS Wrecsam, y gallai fod yn rhaid iddynt ddargyfeirio cyllid o wasanaethau eraill er mwyn bodloni gofynion y Bil.

**220.** Roedd Byrddau Iechyd Lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn pryderu ynghylch costau dehongli a chyfieithu IAP, a'r risgiau y gallai'r costau hyn gynyddu o ganlyniad i'r Bil.[155]

**221.** O ran costau, cyfaddefodd yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil nad oedd hynny'n bosibl gan y byddai angen i Lywodraethau Cymru yn y dyfodol fynd i'r afael â hynny yn eu cyllidebau. Nid oedd modd gwneud hynny mewn Bil nad yw'n pennu beth fydd cynnwys y strategaethau neu'r cynlluniau wedi i'r Bil ddod yn Ddeddf.

**222.** Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet y gallai rhai cyrff cyhoeddus fod yn nerfus ac yn bryderus ynghylch cost y Bil ond ei bod yn gobeithio y byddai'r ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno'r canllawiau, ar y cyd â'r cyngor gan y Cynghorydd a'r Panel Cynorthwyo, yn arwain at ddatblygiad cadarnhaol o ran y ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus.[156]

**223.** Tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet sylw hefyd at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i dalu cost y flwyddyn gyntaf o weithredu.

## Materion yn y maes addysg

**224.** Roedd nifer o randdeiliaid yn dadlau dros welliannau yn yr addysg a'r gefnogaeth a roddir i fabanod, plant a phobl ifanc byddar. Cymharodd Dr Rob

[153] Cofnod y Trafodion, paragraff 48, 13 Hydref 2025
[154] BSL 28 Prifysgol Caeredin
[155] BSL 03 BIP Hywel Dda; BSL 25 BIP Cwm Taf Morgannwg
[156] Cofnod y Trafodion, paragraff 270, 13 Hydref 2025

Wilks a'r WCDP y ddarpariaeth addysg i blant byddar yng Nghymru â'r hyn a ddarperir yn Lloegr.[157]

**225.** Tynnodd sawl sefydliad, gan gynnwys y BDA, yr NDCS a WCDP, sylw at y rhwystrau y mae pobl sydd eisiau dysgu IAP yng Nghymru yn eu hwynebu, gan gynnwys diffyg ymwybyddiaeth yn y system addysg ochr yn ochr â phrinder athrawon a gweithwyr proffesiynol cymwys. Galwodd y BDA am ehangu'r gweithlu addysg fyddar.

**226.** Dywedodd Cwlwm wrthym, er gwaethaf ymdrechion gorau ymarferwyr, fod lefelau'r cyllid a'r darpariaethau hyfforddi yn annigonol ar gyfer yr holl leoliadau gofal plant a chwarae sy'n ceisio cefnogi plant ifanc sy'n B/byddar, neu sydd ag amhariad ar eu clyw. Galwodd am gyllid hirdymor a mwy o gefnogaeth i ymarferwyr i ymgorffori IAP ym mhob lleoliad.[158]

## Technoleg a systemau

**227.** Dywedodd byrddau iechyd wrthym fod y trefniadau sydd ar waith i gofnodi'r defnydd o IAP a'r nifer sy'n dewis defnyddio'r iaith yn anghyson ar draws systemau iechyd.[159] Yn ôl Sarah Morley o Felindre, nid yw gwybodaeth am y defnydd o IAP, ac anghenion cyfathrebu, bob amser yn cael ei hanfon atynt pan fydd cleifion yn cael eu hatgyfeirio.[160]

**228.** Cadarnhawyd hyn yn ystod y gwaith ymgysylltu â chymunedau Byddar:

> *"Dylai'r ffaith fy mod i'n Fyddar fod wedi'i nodi ar fy nghofnod iechyd. Felly pan fyddan nhw'n anfon llythyr apwyntiad ataf, dylai ddangos fy mod i'n Fyddar. Felly dylen nhw fod yn trefnu dehonglwyr ar y cam hwnnw."*
>
> *- cyfranogwr mewn grŵp ffocws*
>
> *"Ap y GIG – rhaid iddyn nhw gynnwys Iaith Arwyddion Prydain ar hwnnw. Hyd yn oed os mai dolen yn Iaith Arwyddion Prydain fyddai ar gael – beth mae'n ei wneud a beth nad yw'n ei wneud. Yna mae'r ap yn cael ei lansio, a syndod o ryfeddodau, does dim byd yn Iaith Arwyddion Prydain. Mae'n rhwystredig iawn oherwydd mae'n teimlo*

[157] Cofnod y Trafodion, paragraff 199, 22 Medi 2025
[158] BSL 06 Cwlwm
[159] BSL 03 BIP Hywel Dda, a BSL 25 BIP Cwm Taf Morgannwg
[160] Cofnod y Trafodion, paragraffau 14 a 15, 13 Hydref 2025

> *bod ymgynghoriad ar addysg neu iechyd neu rywbeth arall yn cael ei gynnal bob pum mlynedd, ac yna does dim byd yn digwydd."*
>
> *- cyfranogwr mewn grŵp ffocws*

**229.** Tynnodd Dr Biao Zeng sylw at dwf mewn cyfathrebu ar-lein fel rhwystr posibl i bobl fyddar. Dywedodd fod atebion technolegol ar gael, ond bod gan y rhain oblygiadau mawr i iaith a diwylliant IAP. Pwysleisiodd yr angen i weithio gydag arwyddwyr IAP o'r cychwyn, er mwyn sicrhau bod unrhyw dechnoleg yn diwallu eu hanghenion.[161]

## Barn y Pwyllgor

### Cyfieithwyr a dehonglwyr

**230.** O bell ffordd, argaeledd dehonglwyr oedd y rhwystr posibl i weithredu'r Bil y cyfeiriwyd ato amlaf. Yn ystod y broses graffu, fe wnaethom ni ein hunain brofi rhai o'r anawsterau hyn. Ar yr un pryd, roeddem yn rhyfeddu at ymdrechion cymuned y dehonglwyr a'r cyfieithwyr proffesiynol yng Nghymru a thu hwnt a wnaeth eu gorau glas i sicrhau bod ein trafodion ar gael yn IAP.

**231.** Yn y dyfodol ni ddylem orfod dibynnu ar barodrwydd gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y sector i fynd yr ail filltir i sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu. Mae nifer y dehonglwyr a'r cyfieithwyr yng Nghymru yn rhy fach, ac yn lleihau o bosibl. Yn y cyfamser, os daw'r Bil yn gyfraith, disgwylir iddo arwain at gynnydd sylweddol yn y galw am y gwasanaethau hyn. Rydym yn pryderu ynghylch yr hyn y gallai hynny ei olygu o ran gweithredu'r Bil a'r ffaith bod datrys y mater hwn yn gofyn am gymryd camau nawr, a hynny ar fyrder.

**232.** Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gennym gan ddehonglwyr, cyfieithwyr a'r ASLI yn benodol ac yn drylwyr fel rhan o'r broses hon. Maent yn tynnu sylw at natur gymhleth ac amlweddog y materion a'r heriau sy'n unigryw i Gymru, y bydd angen i Weinidogion Cymru eu hystyried er mwyn newid y sefyllfa. Rhaid dechrau ar unwaith ar waith i hyfforddi a chadw mwy o ddehonglwyr a chyfieithwyr IAP ac i sicrhau llwyddiant hirdymor y proffesiwn yng Nghymru. Efallai y bydd rhaglen Dyfodol BSL 2004 yn darparu un model i'w efelychu yn hynny o beth, fodd bynnag, ni all hyn gymryd lle buddsoddiad parhaus mewn hyfforddiant ac atebion clir, wedi'u creu yng

[161] Cofnod y Trafodion, paragraff 298, 22 Medi 2025

Nghymru sy'n gwrthdroi'r anghydraddoldebau daearyddol presennol a cholli talent i weddill y DU.

**233.** Nodwn fod gwaith cynllunio ar y gweill i ddatblygu atebion i fynd i'r afael â phrinder presennol o gyfieithwyr a dehonglwyr IAP. Fodd bynnag, credwn fod angen rhoi hwb i'r gwaith hwn a sicrhau bod yr amserlenni ar gyfer y gwaith hwn yn cyd-fynd â'r rhai a ragwelir gan y Bil os daw'n gyfraith. Heb gymryd camau ar unwaith, mae'n annhebygol iawn y bydd y Bil yn cael ei weithredu'n effeithiol.

**Casgliad 5.** Y bygythiad mwyaf i weithredu'r Bil hwn yn effeithiol, os daw'n gyfraith, yw prinder cyfieithwyr a dehonglwyr IAP yng Nghymru. Mae hyn yn galw am gamau gweithredu parhaus ar unwaith.

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynyddu ei hymdrechion i ehangu'r gweithlu o ddehonglwyr IAP ac yn ymrwymo i:

- adolygu'r amserlenni ar gyfer camau gweithredu y dylid eu cymryd ym Map Llwybrau Grŵp Rhanddeiliaid IAP i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Bil;
- Gosod targedau blynyddol ar gyfer hyfforddi a recriwtio dehonglwyr a chyfieithwyr IAP;
- Gosod terfynau amser targed cliriach a mwy uchelgeisiol i atal pethau rhag llithro.

**Costau a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

**234.** Mae rhanddeiliaid, a chyrff cyhoeddus yn arbennig, wedi bwrw cryn amheuaeth ar ymarferoldeb gweithredu'r Bil hwn heb adnoddau digonol. Rydym yn cydnabod na all y Senedd ddisgwyl gosod gofynion newydd ar wasanaethau heb sicrhau bod ganddynt yr adnoddau i gyd-fynd â hynny. Mae p'un a fydd cyrff cyhoeddus yn derbyn adnoddau ychwanegol neu'n gallu ailddefnyddio adnoddau presennol drwy weithio'n fwy cynhyrchiol ac effeithlon yn gwestiwn agored. Fodd bynnag, rydym yn ailadrodd ein pryder bod y Bil mewn perygl o fod yn symbolaidd ac na fydd yn arwain at newid ystyrlon heb adnoddau digonol.

**235.** Er na ellir gwybod y costau cyflawni nes bod y strategaeth a'r cynlluniau lleol wedi'u cytuno, clywsom bryderon gan gyrff cyhoeddus y gallai'r costau a nodir fod yn afrealistig ac nad ydynt yn ystyried chwyddiant.

**Casgliad 6.** Rydym yn nodi'r pryderon hyn ac yn credu y dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil ystyried diwygio'r costau yn y Memorandwm Esboniadol i ystyried chwyddiant.

## Materion eraill

**236.** Codwyd sawl mater nifer ychwanegol gyda ni yn ymwneud ag addysg, technoleg a systemau. O ystyried mai mater i Weinidogion Cymru, ar y cyd ag arwyddwyr IAP, yw pennu blaenoriaethau, rydym wedi penderfynu peidio â gwneud unrhyw sylwadau neu argymhellion penodol ar y materion eraill hyn a godwyd. Yn hytrach, rydym ond am eu hamlygu fel materion fel y gall Llywodraeth Cymru eu hystyried ymhellach ac rydym yn nodi bod Grŵp Rhanddeiliaid IAP wedi gwneud rhai argymhellion perthnasol a allai ddarparu man cychwyn ar gyfer camau gweithredu yn y dyfodol.

# Atodiad 1: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth hyn ar gael ar wefan y Pwyllgor. Roedd gwasanaeth dehongli Iaith Arwyddion Prydain ar gael ar gyfer yr holl drafodion a oedd yn gysylltiedig â'r Bil, a gellir gwylio'r ddarpariaeth hon ar Senedd.tv.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **15 Medi 2025** | **Mark Isherwood**<br>MS, yr Aelod yn gyfrifol am y Bil<br>**Gareth Rogers**<br>Rheolwr y Bil, Comisiwn y Senedd<br>**Claire Thomas**<br>Gwasanaeth Ymchwil, Comisiwn y Senedd<br>**Gareth Howells**<br>Gwasanaethau Cyfreithiol, Comisiwn y Senedd |
| **22 Medi 2025** | **Polly Winn**<br>RNID<br>**Sarah Thomas**<br>Y Ganolfan Arwyddo, Golwg a Sain<br>**Tom Lichy**<br>Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain<br>**Martin Griffiths**<br>Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain<br>**Cath Booth**<br>Cyngor Cymru i Bobl Fyddar<br>**Charles Hampton**<br>Cyngor Cymru i Bobl Fyddar<br>**Jemina Napier**<br>Prifysgol Herriot-Watt<br>**Biao Zeng**<br>Prifysgol De Cymru |
| **29 Medi 2025** | **Kieran Sawdon**<br>y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| | **Jamie Martin**<br>y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar<br>**Rocio Cifuentes**<br>Comisiynydd Plant Cymru<br>**Dr Kate Attfield**<br>Prifysgol Fetropolitan Caerdydd<br>**Dr Rob Wilks**<br>Prifysgol Gorllewin Lloegr |
| **6 Hydref 2025** | **Angela Hughes**<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro<br>**Sarah Morley**<br>Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre<br>**Michelle Fowler**<br>Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre<br>**Rhidian Hurle**<br>Iechyd a Gofal Digidol Cymru<br>**Liam Williams**<br>Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru<br>**Kathryn Cobley**<br>Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| **13 Hydref 2025** | **Y Cynghorydd Ash Lister**<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>**Sarah Capstick**<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>**Lee Wenham**<br>Cyngor Abertawe<br>**Cathryn Morgan**<br>Cyngor Sir Ceredigion<br>**Jane Hutt**<br>AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip<br>**Amira Evans**<br>Pennaeth Cydraddoldeb, Llywodraeth Cymru<br>**Jane Peffers**<br>Pennaeth Polisi Iaith Arwyddion Prydain, Llywodraeth Cymru |
| **20 Hydref 2025** | **Mark Isherwood**<br>AS, yr Aelod yn Gyfrifol am y Bil<br>**Gareth Rogers**<br>Rheolwr y Bil, Comisiwn y Senedd |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| | **Claire Thomas**<br>Gwasanaeth Ymchwil, Comisiwn y Senedd<br>**Aled Evans**<br>Gwasanaethau Cyfreithiol, Comisiwn y Senedd |

# Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Cyflwynodd yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth ysgrifenedig arall, ar gael i'w darllen ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **BSL 01** | Cymwysterau Cymru |
| **BSL 02** | Anabledd Cymru |
| **BSL 03** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| **BSL 04** | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| **BSL 05** | Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru |
| **BSL 06** | CWLWM |
| **BSL 07** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| **BSL 08** | Cymdeithas Dehonglwyr Iaith Arwyddion |
| **BSL 09** | Dr Rob Wilks, Prifysgol Gorllewin Lloegr |
| **BSL 10** | Dr Kate Attfield |
| **BSL 11** | Aled Thomas |
| **BSL 12** | Jodie Gallagher-Smith |
| **BSL 13** | Coleg Brenhinol y Seiciatryddion Cymru |
| **BSL 14** | David Reader |
| **BSL 15** | Dr Julia Terry, Prifysgol Abertawe |
| **BSL 16** | Y Ganolfan Arwyddo, Golwg a Sain |
| **BSL 17** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| **BSL 18** | Cyngor Sir Dinbych |
| **BSL 19** | Cyngor Sir Fynwy |
| **BSL 20** | Dr Christopher Shank |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **BSL 21** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| **BSL 22** | Addysg a Gwella Iechyd Cymru |
| **BSL 23** | Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain |
| **BSL 24** | RNID Cymru |
| **BSL 25** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |
| **BSL 26** | Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru |
| **BSL 27** | Cyngor Dinas Casnewydd |
| **BSL 28** | Prifysgol Caeredin |
| **BSL 29** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| **BSL 30** | Undeb Cenedlaethol Dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain |
| **BSL 31** | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **BSL 32** | Y Cofrestrau Cenedlaethol o Weithwyr Cyfathrebu Proffesiynol sy’n gweithio gyda Phobl Fyddar a Dall Fyddar |